# Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd

Adroddiad Cychwynnol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Adroddiad terfynol**
Wedi'i baratoi gan
LUC Chwefror 2026

| Fersiwn | Statws | Paratowyd | Gwiriwyd | Cymeradwywyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad drafft | A Ahmed<br>A Jennings<br>S Temple | K Nicholls | K Nicholls | 20.01.2026 |
| 2 | Adroddiad terfynol | A Ahmed<br>A Jennings<br>S Temple | K Nicholls | K Nicholls | 04/02/2026 |

**Land Use Consultants Limited**

Cofrestrwyd yn Lloegr. Rhif cofrestredig 2549296. Swyddfa gofrestredig: 250 Waterloo Road, London SE1 8RD. Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

# Cynnwys

**Pennod 1** **6**
Cyflwyniad

Ardal y cynllun 6
Y Cynllun Datblygu Lleol newydd 7
Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol 7

**Pennod 2** **10**
Fframwaith a methodoleg y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig

Fframwaith GCI 10
Methodoleg GCI 22

Pennod 3 24
Dadansoddiad cydnawsedd amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig

Amcanion CDLl ac amcanion GCI anghydnaws o bosibl 30
Amcanion ansicr y CDLl a'r GCI 30
Argymhellion 31

Pennod 4 32
Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig o'r opsiynau twf

Amcan 1 y GCI: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a lleihau'r risg o lifogydd 35
Amcan 2 y GCI: Darparu swm a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol 36
Amcan 3 y GCI: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb 37
Amcan 4 y GCI: Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo llesiant a gwella lefelau iechyd cyffredinol ar Ynys Môn 37

Amcan 5 y GCI: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy 38
Amcan 6 y GCI: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig 38
Amcan 7 y GCI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg 39
Amcan 8 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd 39
Amcan 9 y GCI: Diogelu a gwella bioamrywiaeth 39
Amcan 10 y GCI: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr Ynys Môn 40
Amcan 11 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd aer 40
Amcan 12 y GCI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau 41
Amcan 13 y GCI: Parhau i leihau cynhyrchu gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy 41
Amcan 14 y GCI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy 41
Amcan 15 y GCI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi 42
Crynodeb o'r canfyddiadau 42

## Pennod 5 44
Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig o'r opsiynau gofodol

Amcan 1 y GCI: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a lleihau'r risg o lifogydd 46
Amcan 2 y GCI: Darparu swm a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol 48
Amcan 3 y GCI: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb 49
Amcan 4 y GCI: Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo llesiant a gwella lefelau iechyd cyffredinol ar Ynys Môn 50
Amcan 5 y GCI: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy 51
Amcan 6 y GCI: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig 52
Amcan 7 y GCI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg 53
Amcan 8 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd 54
Amcan 9 y GCI: Diogelu a gwella bioamrywiaeth 55
Amcan 10 y GCI: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr Ynys Môn 56
Amcan 11 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd aer 57
Amcan 12 y GCI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau 58

Amcan 13 y GCI: Parhau i leihau cynhyrchu gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy 58
Amcan 14 y GCI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy 59
Amcan 15 y GCI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi 60
Crynodeb o'r canfyddiadau 61

**Pennod 6** **63**
Y camau nesaf

**Cyfeiriadau** **64**

# Pennod 1
## Cyflwyniad

**1.1** Comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn LUC ym mis Chwefror 2025 i gynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Fel yr argymhellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu **[Gweler cyfeiriad 1]**, bydd y GC/AAS hefyd yn ymgorffori asesiadau eraill megis Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ac asesiad yr iaith Gymraeg, yn ogystal â mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6). Felly, cyfeirir at y broses fel Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI).

**1.2** Ym mis Mai 2025, paratôdd ac ymgynghorodd LUC ar Adroddiad Cwmpasu GCI ar gyfer y CDLl newydd. Darparodd hyn y cyd-destun ar gyfer y GCI, a phennodd ei gwmpas, a nododd y fframwaith ar gyfer ymgymryd â chamau diweddarach y GCI.

**1.3** Mae'r Adroddiad GCI Cychwynnol hwn yn cyflwyno dadansoddiad cydnawsedd o amcanion y CDLl ac amcanion GCI a sefydlwyd yn ystod y cyfnod Cwmpasu, yn ogystal ag asesiad o'r senarios twf a'r opsiynau gofodol sy'n cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn. Bydd yn cyd-fynd ag ymgynghoriad lefel uchel Cyngor Sir Ynys Môn ar y 'Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau' a gynhelir ddechrau 2026. Yng ngham nesaf y broses o lunio cynlluniau, bydd y ddogfen hon yn cael ei hehangu i gynnwys Adroddiad GCI llawn sy'n mynd i'r afael â gofynion Rheoliadau AAS (Cymru).

## Ardal y cynllun

**1.4** Mae Sir Ynys Môn yn cwmpasu Ynys Môn, gan gynnwys Ynys Gybi, ac mae wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru (gweler Error! Reference source not found.). Dyma'r ynys fwyaf yng Nghymru a Lloegr gyda maint o 275 milltir sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o 68,900. Dyma'r chweched ardal awdurdod lleol lleiaf dwys ei phoblogaeth allan o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yr anheddiad mwyaf yw Caergybi, ac yna Llangefni ac Amlwch.

**1.5** Mae Ynys Môn wedi'i hamgylchynu gan ynysoedd llai, ac mae rhannau helaeth o'r arfordir wedi'u dynodi'n Dirwedd Genedlaethol Arfordir Ynys Môn (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu AHNE). Mae rhannau o'r arfordir hefyd wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae Ynys Môn yn ffinio â siroedd Conwy a Gwynedd, sydd ill dwy yn cynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Eryri.

**1.6** Mae llwybrau strategol allweddol yn Ynys Môn yn cynnwys yr A55, sy'n rhedeg trwy'r sir i Gaergybi, yn ogystal â rheilffordd arfordirol Gogledd Cymru sy'n cysylltu Ynys Môn â Gogledd Cymru ehangach a thu hwnt. Mae gorsaf reilffordd Caergybi, terfynfa orllewinol Prif Linell Gogledd Cymru, yn darparu gwasanaethau trên uniongyrchol i Lundain Euston. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf gan Avanti West Coast, gyda phum trên uniongyrchol yn rhedeg bob dydd. Mae porthladd Caergybi yn darparu gwasanaeth fferi gydag Iwerddon ac mae'n brif gyswllt ffordd a rheilffordd rhwng Iwerddon a Gogledd Cymru, canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr.

## Y Cynllun Datblygu Lleol newydd

**1.7** Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd y CDLl ar y Cyd presennol ym mis Gorffennaf 2017, sy'n nodi'r strategaeth gynllunio ar gyfer yr ardal (ac eithrio'r rhannau o Wynedd sy'n dod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) dros y 15 mlynedd hyd at 2026.

**1.8** I ddechrau, roedd y ddau Gyngor yn bwriadu paratoi CDLl ar y Cyd newydd; fodd bynnag, ym mis Mawrth 2023 gwnaed penderfyniad i roi'r gorau i'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi dechrau gweithio ar baratoi ei CDLl newydd ei hun.

**1.9** Mae'r Cyngor bellach yng nghyfnodau cynnar paratoi'r CDLl newydd, yn dilyn ymgynghoriad ar Gytundeb Cyflawni Drafft yn ystod Haf 2024.

**1.10** Disgwylir i'r CDLl newydd gynnwys gweledigaeth ac amcanion ar gyfer ardal y cynllun, strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu ar Ynys Môn, dyraniadau safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad gan gynnwys tai a chyflogaeth, a pholisïau arddull rheoli datblygu ar gyfer rheoli ceisiadau a gyflwynir.

## Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

**1.11** Dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 62(6)), mae GC yn orfodol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae hefyd yn angenrheidiol cynnal asesiad amgylcheddol yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) (Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC), a drosglwyddwyd i gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Felly, mae'n ofyniad cyfreithiol i CDLl newydd Ynys Môn fod yn destun GC ac AAS drwy gydol ei baratoad.


**1.12** Mae'r gofynion i gynnal GC ac AAS yn wahanol, er ei bod hi'n bosibl bodloni'r ddau gan ddefnyddio un broses asesu (fel yr argymhellir yn y Llawlyfr

Cynlluniau Datblygu) lle gall defnyddwyr gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb AAS drwy un broses GC integredig – dyma'r broses sy'n cael ei chynnal ar Ynys Môn. O hyn ymlaen, felly, dylid cymryd bod y term 'GC' (neu GCI, gan fod proses integredig yn cael ei chynnal yn yr achos hwn) yn golygu 'GC sy'n ymgorffori gofynion Rheoliadau AAS'.

**Ffigur 1.1: Ardal y Cynllun**

Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd
Cyngor Sir Ynys Môn

**Ffigur 1.1: Ardal y Cynllun**




**Legend**

Ffin Ynys Môn

Awdurdod lleol cyfagos

Note:
Contains OS data © Crown Copyright and Database Right 2026.

Created by LUC - 13456_002_Anglesey_Adhoc_Welsh_Text_Figures/13456_Figure_000_r0_Anglesey_A4L 16/02/2026
Sources: Esri, TomTom, Garmin, FAO, NOAA, USGS, © OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community

# Pennod 2
## Fframwaith a methodoleg y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig

**2.1** Mae'r fethodoleg sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y GCI wedi'i manylu'n llawn yn Adroddiad Cwmpasu'r GCI (Mai 2025), gan gynnwys y camau sy'n rhan o'r broses:

- Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas.
- Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau.
- Cam C: Paratoi'r Adroddiad GC.
- Cam D: Ymgynghori ar y Cynllun a'r adroddiad GC.
- Cam E: Monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r Cynllun.

**2.2** Mae'r Adroddiad GCI Cychwynnol hwn yn rhan o Gam B.

## Fframwaith GCI

**2.3** Mae datblygu set o amcanion GCI (a elwir yn fframwaith y GCI) yn ffordd gydnabyddedig y gellir disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau cynaliadwyedd tebygol cynllun.

**2.4** Datblygwyd fframwaith y GCI ar gyfer CDLl newydd Ynys Môn yn ystod y cyfnod Cwmpasu ac fe'i cyflwynir yn y bennod hon. Mae amcanion y GCI yn mynd i'r afael yn glir â'r holl bynciau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AAS (a nodir yn Atodlen 2 o Reoliadau AAS (Cymru)). Mae'r amcanion hefyd yn mynd i'r afael â'r prosesau asesu eraill y bwriedir eu hintegreiddio o fewn y GCI.

### Amcan 1 y GCI: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a lleihau'r risg o lifogydd

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cyfrannu at gymuned garbon-niwtral?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau'r risg o lifogydd i bobl ac eiddo, ac yn cynnal cyfanrwydd y gorlifdir?

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo'r defnydd o SuDS a dyluniadau eraill sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn ystyried effeithiau tebygol newid hinsawdd ar bob math o seilwaith?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog datblygu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys microgynhyrchu?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog safonau uchel o effeithlonrwydd ynni ym mhob datblygiad newydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo dylunio a fydd yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd (er enghraifft drwy gyfeiriadedd adeiladau priodol)?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn llywio datblygiad i ffwrdd o'r gorlifdir lle bo modd, ac yn atal mwy o berygl llifogydd mewn mannau eraill?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo dylunio a fydd yn cefnogi seilwaith gwyrdd?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Ffactorau hinsoddol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru iachach
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Amcan 2 y GCI: Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu tai o ansawdd da?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo cymysgedd o feintiau, mathau a deiliadaethau tai?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo tai sy'n diwallu gofynion y rhai ag anghenion penodol gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau?

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn helpu i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy er mwyn caniatáu i bobl leol aros yn eu cymunedau?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Poblogaeth
- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru fwy cyfartal
  - Cymru o gymunedau cydlynus
- Mae mynediad at dai priodol i ddiwallu anghenion penodol yn fater allweddol ar gyfer cydran AEG ac AEI o'r GCI.

## Amcan 3 y GCI: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog darparu cyfleusterau cymunedol mewn lleoliadau hygyrch?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo mynediad at addysg i bawb?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn ystyried anghenion grwpiau penodol gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cynllunio lleoedd gyda chyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu ar gyfer mannau cyfarfod ar gyfer gwahanol ddiwylliannau?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo datblygiad cymysg?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu mynediad cyfartal i bawb?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn helpu i hyrwyddo atebion dylunio a fydd yn helpu i ddiogelu cymunedau rhag troseddu a lleihau ofn troseddu?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Poblogaeth
- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru fwy cyfartal
  - Cymru o gymunedau cydlynus
- Mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n berthnasol i grwpiau penodol yn fater allweddol ar gyfer cydran AEG y GCI, ac mae lleihau unigedd yn bwysig ar gyfer y gydran AEI.

## Amcan 4 y GCI: Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol ar Ynys Môn

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo darparu cyfleusterau gofal iechyd a mynediad atynt?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn atal effeithiau annerbyniol ar amwynderau (megis llygredd sŵn, arogl a golau)?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu mannau fel rhandiroedd a gerddi cymunedol a fydd yn hyrwyddo bwyta'n iach?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu mannau agored presennol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden corfforol a chwarae (gan gynnwys ar gyfer cerdded a beicio)?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo pwysigrwydd diogelu mannau chwarae naturiol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella mynediad y cyhoedd at fannau gwyrdd naturiol a/neu gefn gwlad?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu ar gyfer gofod awyr agored preifat personol o fewn datblygiadau newydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella iechyd meddwl pobl?

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn helpu i wella lefelau iechyd cyffredinol a lleihau anghydraddoldebau iechyd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo pwysigrwydd diogelu mannau chwarae naturiol?

*Noder bod y graddau y bydd opsiynau'n hyrwyddo defnyddio dulliau trafnidiaeth llesol yn cael ei drafod o dan amcan 5 y GC isod.*

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Iechyd dynol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru iachach
  - Cymru fwy cyfartal
- Yn mynd i'r afael â'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

## Amcan 5 y GCI: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu dewisiadau amgen i'r car preifat ac yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu ar gyfer llwybrau cerdded a beicio diogel a deniadol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau'r angen i deithio mewn datblygiadau newydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn sicrhau cysylltedd â band eang cyflym?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau'r angen i deithio allan i'r gwaith?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo darparu seilwaith ategol ar gyfer cerbydau trydan a'u defnyddio?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Asedau materol

- Ffactorau hinsoddol
- Aer

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
  - Cymru iachach

## Amcan 6 y GCI: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella ardaloedd ac adeiladau o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella archaeoleg?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella treftadaeth ddiwydiannol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo mynediad cynaliadwy i safleoedd diwylliannol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn sicrhau safonau dylunio uchel ym mhob datblygiad newydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella cymeriad a hynodrwydd lleol, gan gydnabod rôl arloesedd?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Treftadaeth ddiwylliannol
- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Amcan 7 y GCI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ymhlith gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys yn y gweithle ac mewn addysg?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo statws yr iaith Gymraeg?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Treftadaeth ddiwylliannol
- Poblogaeth

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Yn mynd i'r afael â'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## Amcan 8 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella ardaloedd dynodedig, gan gynnwys y Dirwedd Genedlaethol a'r Arfordir Treftadaeth?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella tirweddau hanesyddol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella cymeriad a hynodrwydd y dirwedd leol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ac yn gwella llonyddwch ac awyr dywyll?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Tirwedd

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
  - Cymru iachach

## Amcan 9 y GCI: Diogelu a gwella bioamrywiaeth

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau ac yn cynnal a gwella poblogaethau rhywogaethau?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella maint cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau blaenoriaeth drwy geisio creu, adfer a rheoli rhwydweithiau a chysylltiadau gwyrdd yn briodol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella ac yn diogelu cyflwr ecosystemau ac yn cefnogi rheolaeth hirdymor cynefinoedd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella cysylltedd drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd i greu cynefinoedd swyddogaethol a rhwydweithiau ecolegol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cyflawni addasrwydd i newid, yn enwedig effeithiau newid hinsawdd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer amharu ar brosesau naturiol neu gysylltedd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cefnogi adfer prosesau naturiol a allai liniaru neu ddileu effeithiau eraill?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella ac yn diogelu cysylltiadau rhwng pobl a natur?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Bioamrywiaeth, fflora a ffawna

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru gydnerth

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Mae ystyriaethau Deddf yr Amgylchedd (Adran 6) yn cael eu hadlewyrchu yn y cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau

## Amcan 10 y GCI: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr Ynys Môn

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau a/neu'n osgoi llygredd i'r amgylchedd dŵr?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cefnogi defnydd effeithlon o ddŵr, gan gynnwys ailgylchu dŵr llwyd mewn datblygiadau newydd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ansawdd a maint ffynonellau dŵr daear?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn atal datblygiad newydd a fydd yn achosi problemau draenio (gan gynnwys mewn perthynas ag amlhau selio pridd)?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu ansawdd a maint dŵr wyneb?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn helpu i sicrhau lefelau digonol o seilwaith carthffosiaeth a chapasiti i drin dŵr gwastraff mewn gweithfeydd trin carthffosiaeth?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Dŵr

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru iachach
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Amcan 11 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd aer

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn osgoi cynyddu llygredd aer ac yn cyflawni gwelliannau mewn ansawdd aer?

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo polisi a datblygiad sy'n galluogi ac yn cefnogi cymunedau i fabwysiadu ffyrdd o fyw a chamau gweithredu a all ddiogelu neu wella ansawdd aer lleol?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Aer

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru iachach
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Amcan 12 y GCI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol fel blaenoriaeth, lle bo'n briodol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn atal ac yn rheoli llygredd i dir?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo adferiad halogiad tir?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn diogelu adnoddau mwynau?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu agregau ar y safle?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo dwyseddau datblygu uwch (lle ystyrir bod hynny'n briodol) i gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau tir?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Pridd
- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Amcan 13 y GCI: Parhau i leihau cynhyrchu gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff mwy cynaliadwy

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn lleihau cynhyrchu gwastraff?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn osgoi, lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cyn ei waredu i safleoedd tirlenwi?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn gwella perfformiad ailgylchu da ymhellach gan gynnwys darparu cyfleusterau (domestig a masnachol)?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cefnogi datblygu dewisiadau amgen i dirlenwi, gan gynnwys cyfleusterau compostio ac ynni o wastraff?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo hunangynhaliaeth o ran rheoli gwastraff lle bo'n briodol?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Asedau materol
- Iechyd dynol
- Dŵr
- Pridd

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru gydnerth
  - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Amcan 14 y GCI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog twf economaidd?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn annog buddsoddiad mewnol a brodorol priodol?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cefnogi'r economi wledig?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn sicrhau bod tir yn cael ei ddyrannu i ddiwallu anghenion economaidd y boblogaeth?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cynnal banc tir priodol o safleoedd cyflogaeth?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cefnogi cyflawni economi carbon is, mwy gwyrdd a all fod o fudd i bob aelod o'r gymuned?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLICD:
  - Cymru lewyrchus
  - Cymru fwy cyfartal

## Amcan 15 y GCI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi

- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i'r eithaf yn Ynys Môn?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer ystod o lefelau sgiliau?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch?
- A fydd yr opsiwn polisi/strategaeth yn cynnwys cyfleusterau hyfforddi i helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau hyblyg?

### Pwnc(pynciau) Rheoliadau AAS perthnasol

- Poblogaeth
- Asedau materol

### Perthnasedd i brosesau asesu eraill sydd wedi'u hymgorffori yn y GCI

- Yn mynd i'r afael â nod(au) llesiant canlynol DLlCD:
  - Cymru lewyrchus
  - Cymru fwy cyfartal

## Methodoleg GCI

**2.5** Bydd yr opsiynau polisi amgen rhesymol ar gyfer y CDLl yn cael eu gwerthuso yn erbyn yr amcanion yn fframwaith y GCI, gyda symbolau'n cael eu defnyddio i nodi effeithiau tebygol pob opsiwn ar bob amcan y GCI, fel y dangosir yn Nhabl 2.1.

**Tabl 2.1: Allwedd i'r symbolau a'r codau lliw i'w defnyddio yn y GCI o CDLl Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol yn debygol |
| ++/- | Effeithiau cadarnhaol arwyddocaol a negyddol bach cymysg yn debygol |
| + | Effaith gadarnhaol fach yn debygol |
| 0 | Effaith ddibwys yn debygol |
| - | Effaith negyddol fach yn debygol |
| --/+ | Effeithiau negyddol arwyddocaol a chadarnhaol bach cymysg yn debygol |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol yn debygol |
| ++/-- | Effeithiau cadarnhaol arwyddocaol a negyddol arwyddocaol cymysg yn debygol |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol bach a negyddol bach cymysg yn debygol |
| ? | Effaith debygol yn ansicr |

**2.6** Lle mae effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl yn ansicr, bydd marc cwestiwn yn cael ei ychwanegu at y symbol perthnasol (e.e. +? neu -?) a bydd y symbol yn cael ei godio yn ôl lliw yn ôl yr effaith gadarnhaol, ddibwys neu negyddol bosibl (e.e. gwyrdd, glas, gwyn, oren, pinc, ac ati).

**2.7** Mae angen pennu effeithiau tebygol opsiynau a pholisïau ac asesu eu harwyddocâd, sy'n anochel yn gofyn am gyfres o farnau. Bydd yr asesiad yn ceisio gwahaniaethu rhwng yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ac effeithiau llai eraill trwy ddefnyddio'r symbolau a ddangosir yn Nhabl 2.1. Mae'r llinell wrth wneud penderfyniad ynghylch arwyddocâd effaith yn aml yn eithaf bach. Lle defnyddir naill ai (++) neu (--) i wahaniaethu rhwng effeithiau arwyddocaol ac effeithiau llai (+ neu -) bydd hyn oherwydd bod effaith opsiwn neu bolisi ar amcan y GCI dan sylw yn cael ei hystyried i fod o'r fath faint fel y bydd ganddi effaith amlwg a mesuradwy gan ystyried ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar gyflawni'r amcan hwnnw. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau a nodwyd yn gymharol â graddfa'r cynigion sy'n cael eu hystyried.

**2.8** Dim ond lle mae effeithiau uniongyrchol gyferbyniol (h.y. cadarnhaol a negyddol) wedi'u nodi drwy'r gwerthusiad y cyflwynir effeithiau cymysg (e.e. +/-, ++/-, --/+ a ++/--

Ar gyfer rhai amcanion GCI, mae'n bosibl y gallai polisi gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag un agwedd ar y polisi ac effaith gadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas ag agwedd arall (gan roi sgôr o +/++). Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, dim ond y sgôr bwysicaf a ddangosir yn y tablau gwerthuso. Yn yr un modd, os gallai polisi neu safle gael effaith negyddol fach ac arwyddocaol (-/--) ar yr un amcan GCI, dim ond y sgôr negyddol arwyddocaol a ddangosir yn y tablau gwerthuso.
Bydd y testun cyfiawnhad sy'n ymwneud â'r gwerthusiad yn disgrifio lle gallai gwahanol elfennau'r polisi sy'n cael ei werthuso arwain at effeithiau o wahanol faint.

# Pennod 3

## Dadansoddiad cydnawsedd amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig

**3.1** Mae CDLl newydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys gweledigaeth ddrafft, sef:

Erbyn 2039, bydd Ynys Môn yn ynys o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol lle mae pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld. Bydd yr ynys wedi:

a) Cadw a gwella cymeriad unigryw'r ynys wedi'i strwythuro o amgylch yr aneddiadau allweddol a nodwyd ar gyfer twf ac ardal wledig helaeth sy'n cynnwys aneddiadau a phentrefi llai.

b) Diogelu ei hasedau amgylcheddol allweddol, gan gynnwys Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a safleoedd tirwedd ac ecolegol dynodedig a heb eu dynodi eraill.

c) Cefnogi dylunio o ansawdd uchel mewn datblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth ddigonol o fannau agored a seilwaith gwyrdd a glas.

d) Darparu digon o dai o'r mathau a'r deiliadaethau cywir i ddiwallu anghenion lleol, gan gynnwys ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio, tai fforddiadwy a'r gymuned sipsiwn a theithwyr.

e) Cefnogi datblygiad a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd a chymdeithasol a ddarperir gan ddatblygiad niwclear newydd yn Wylfa.

f) Lleihau'r angen i deithio (yn enwedig mewn car) trwy leoliad priodol datblygiad newydd, a chefnogi darparu gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at ble mae eu hangen.

g) Cyfrannu at liniaru newid hinsawdd drwy gefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel sydd wedi'i leoli'n sensitif, gan gynnwys datblygiad yn y dyfodol yn Wylfa.

h) Cefnogi economi amrywiol gyda swyddi o ansawdd uchel, yn seiliedig ar ddiwydiannau arbenigol.

i) Cefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy barhau i ddenu ymwelwyr i'r ynys, a sicrhau bod effeithiau twristiaeth yn cael eu rheoli a'u lleihau i'r lleiafswm.

Mwyafu manteision dynodiadau parth twf Porthladd Rhydd a Deallusrwydd Artiffisial.

**3.2** Nid yw'r weledigaeth yn cael ei gwerthuso yn yr Adroddiad GCI hwn, gan ei bod yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol yn ei hanfod, a chaiff ei chyflawni drwy bolisïau'r CDLl a fydd eu hunain yn destun GCI yn ddiweddarach yn y broses.

**3.3** Mae'r CDLl sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cynnwys 17 o amcanion, a fydd yn sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyflawni. Maent wedi'u strwythuro i'r saith thema ganlynol:

- Thema 1: Cefnogi economi gynaliadwy a bywiog
- Thema 2: Sicrhau mynediad at gartrefi addas
- Thema 3: Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau
- Thema 4: Ymateb i hinsawdd sy'n newid
- Thema 5: Diogelu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg a diwylliant
- Thema 6: Diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a rheoli adnoddau
- Thema 7: Hyrwyddo creu lleoedd a lles

**3.4** Amcanion y CDLl drafft yw:

- Amcan 1: Annog ffyniant economaidd drwy gefnogi busnesau presennol a denu buddsoddiad newydd i wella sgiliau a chyfleoedd gwaith ar yr Ynys a, thrwy wneud hynny, galluogi cadw’r boblogaeth oed gweithio a chyfrannu at gymunedau mwy cynaliadwy a hyfyw. (Thema 1).
- Amcan 2: Parhau i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer arallgyfeirio’r economi wledig ar yr un pryd â darparu cymorth i ddiwydiannau gwledig sylfaenol fel ffermio i sicrhau eu hyfywedd a’u cadernid parhaus (Thema 1).
- Amcan 3: Cefnogi datblygiadau sy’n gwella bywiogrwydd a hyfywedd strydoedd a chanol trefi Ynys Môn gyda’r bwriad o wella a diogelu canolfannau manwerthu lleol ar yr Ynys (Thema 1).
- Amcan 4: Cefnogi datblygiadau twristiaeth priodol a fydd yn cyfrannu at dwf cynaliadwy’r economi ymwelwyr gan sicrhau bod y nodweddion sy’n cyfrannu at atyniad yr Ynys fel cyrchfan yn cael eu diogelu’n ddigonol (Thema 1).
- Amcan 5: Hwyluso’r gwaith o ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o dai sydd eu hangen i ddiwallu’r galw am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd cartrefi o’r fath yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ac yn

hygyrch i wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen ar breswylwyr yn ogystal ag ystyried anghenion a gofynion arbenigol poblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i ddarparu digon o dai fforddiadwy (Thema 2).

- Amcan 6: Sicrhau bod seilwaith ffisegol, cymdeithasol/cymunedol, digidol a gwyrdd a glas digonol yn bodoli i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol yn ardal y Cynllun (Thema 3).
- Amcan 7: Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli i leihau'r angen i deithio a'u bod wedi'u dylunio i fod yn addas ar gyfer cerdded neu feicio, gyda chyfleusterau wedi'u lleoli wrth ymyl lle mae pobl yn byw (Thema 3).
- Amcan 8: Cefnogi mesurau i leihau allyriadau carbon a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd, gan ymateb i gynhesu byd-eang a chefnogi cymdeithas i addasu'r ffordd mae'n gweithio, yn byw ac yn defnyddio tir, gan feithrin cadernid rhag effeithiau hinsawdd sy'n newid (Thema 4).
- Amcan 9: Cefnogi'r newid i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy hwyluso'r gwaith o ddatblygu seilwaith priodol sy'n gwireddu manteision ystyrlon ac yn lliniaru effeithiau negyddol (Thema 4).
- Amcan 10: Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cynllunio'n briodol i alluogi'r Gymraeg i ddatblygu a ffynnu, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Thema 5).
- Amcan 11: Diogelu a gwella bioamrywiaeth yr Ynys drwy sicrhau bod effeithiau datblygiadau yn cael eu hosgoi a lle y bo angen eu lliniaru. Cyfrannu at gynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn a chysylltiedig a gwella seilwaith gwyrdd fel rhan o ddatblygiad (Thema 6).
- Amcan 12: Darparu sylfaen gref o bolisïau sy'n gwarchod yr amgylchedd hanesyddol drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad sy'n cael ei gynnig yng nghyswllt asedau hanesyddol yn cael ei arwain gan fuddiannau pennaf yr asedau hynny ac yn parchu cymeriad a natur unigryw'r ardal (Thema 6).
- Amcan 13: Diogelu adnoddau mwynol rhag cael eu sterileiddio gan sicrhau bod banc tir digonol o fwynau agregau yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion presennol i ddiwallu anghenion cymdeithas yn gynaliadwy (Thema 6).
- Amcan 14: Hwyluso darpariaeth ddigonol o gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl o wastraff a, thrwy wneud hynny, symud tuag at economi gylchol (Thema 6).

- Amcan 15: Hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles yr holl drigolion drwy sicrhau bod lleoedd yn cael eu cynllunio a'u datblygu i gefnogi ffyrdd o fyw llesol a chymunedau cysylltiedig drwy integreiddio safonau uchel o amwynder a meithrin amgylcheddau diogel i bawb (Thema 7).
- Amcan 16: Sicrhau bod cymunedau'n cael ystod o gyfleusterau allweddol sy'n darparu mynediad digonol i hamdden, adloniant, diwylliant, iechyd, addysg a mannau agored cyhoeddus. Dylai datblygiad a allai effeithio ar y defnydd o gyfleusterau o'r fath a'u hargaeledd geisio gwella'r ddarpariaeth (Thema 7).
- Amcan 17: Mabwysiadu dull creu lleoedd i alluogi datblygu aneddiadau ffyniannus sy'n cyflawni dylunio da â naws lleol, sy'n adlewyrchu cyd-destun, cymeriad a lleoliad, sy'n sicrhau mynediad a symud priodol, ac sy'n cyfrannu at gyflawni aneddiadau cynaliadwy sy'n eu gwneud yn fwy deniadol fel lleoedd i fyw a gweithio ynddynt (Thema 7).

**3.5** Mae Tabl 3.1 dros y ddalen yn cyflwyno dadansoddiad cydnawsedd lefel uchel rhwng amcanion y CDLl ac amcanion y GCI, y sefydlwyd yr olaf ohonynt yn ystod y cam Cwmpasu. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod amcanion y CDLl yn gydnaws yn gyffredinol ag amcanion y GCI, yn enwedig amcanion 3, 6, 7 ac 8 y CDLl. Mae'r anghydnawsedd mwyaf ag amcanion y GCI yn gysylltiedig ag amcanion 1 a 5 y CDLl gan eu bod yn hyrwyddo cyflogaeth a thwf preswyl yn y drefn honno, ac felly gallent gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol tra hefyd yn cyfrannu at newid hinsawdd trwy gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Tabl 3.1: A yw amcanion y CDLI yn gydnaws ag amcanion y GCI?**

| Thema'r CDLI | Amcan y CDLI | GCI1 | GCI2 | GCI3 | GCI4 | GCI5 | GCI6 | GCI7 | GCI8 | GCI9 | GCI 10 | GCI 11 | GCI 12 | GCI 13 | GCI 14 | GCI 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | Na | Dim cyswllt | Oes | Oes | Dim cyswllt | Na | Dim cyswllt | Na | Na | Na | Na | Oes | Na | Oes | Oes |
| 1 | 2 | ? | Dim cyswllt | Oes | Oes | ? | ? | Dim cyswllt | ? | ? | ? | ? | Dim cyswllt | ? | Oes | Oes |
| 1 | 3 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Oes | Oes |
| 1 | 4 | Na | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Na | ? | Dim cyswllt | ? | Na | ? | Na | Dim cyswllt | ? | Oes | Oes |
| 2 | 5 | ? | Oes | Oes | Oes | Oes | Na | Dim cyswllt | Na | Na | Na | Na | Dim cyswllt | Na | Oes | Dim cyswllt |
| 3 | 6 | Oes | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Na | Dim cyswllt | Na | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 7 | Oes | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |
| 4 | 8 | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |
| 4 | 9 | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |
| 5 | 10 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt |
| 6 | 11 | Oes | Na | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt |

| Thema'r CDLl | Amcan y CDLl | GCI1 | GCI2 | GCI3 | GCI4 | GCI5 | GCI6 | GCI7 | GCI8 | GCI9 | GCI 10 | GCI 11 | GCI 12 | GCI 13 | GCI 14 | GCI 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 12 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt |
| 6 | 13 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |
| 6 | 14 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Dim cyswllt |
| 7 | 15 | Oes | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt |
| 7 | 16 | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |
| 7 | 17 | Dim cyswllt | Oes | Oes | Oes | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Dim cyswllt | Oes | Dim cyswllt |

## Amcanion CDLl ac amcanion GCI anghydnaws o bosibl

- Mae amcanion 1 y CDLl o bosibl yn anghydnaws ag amcanion 1, 6, 8, 9, 10, 11 a 13 y GCI. Mae hyn oherwydd ei fod yn ceisio cefnogi busnesau presennol a denu buddsoddiadau newydd i wella sgiliau a chyfleoedd swyddi, ond mae'r amcanion GCI hyn yn ceisio lliniaru newid hinsawdd a diogelu yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'n debygol y byddai'r twf economaidd a gefnogir gan amcan 1 y CDLl yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr a gallai gael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Gallai twf economaidd hefyd roi mwy o bwysau ar adnoddau dŵr yr ynys a chyfrannu at lygredd aer a chynhyrchu gwastraff.
- Mae amcan 4 y CDLl o bosibl yn anghydnaws ag amcanion 1, 5, 9 ac 11 y GCI. Mae hyn oherwydd y gallai mwy o dwristiaeth arwain at lefelau uwch o deithio ac allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig o ystyried natur wledig yr ynys, ac o bosibl gael effeithiau andwyol ar ansawdd aer a bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad.
- Mae amcan 5 y CDLl o bosibl yn anghydnaws ag amcanion 6, 8, 9, 10, 11 a 13 y GCI. Mae hyn oherwydd y gallai datblygu tai gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, gan gynnwys ar adnoddau dŵr yr ynys tra hefyd yn cyfrannu at lygredd aer a chynhyrchu gwastraff.
- Mae amcan 6 y CDLl o bosibl yn anghydnaws ag amcanion 6 ac 8 y GCI, gan fod yr amcan hwn yn cefnogi datblygu seilwaith a allai gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd.
- Mae amcan 11 y CDLl o bosibl yn anghydnaws ag amcan 2 y GCI, gan mai nod yr amcan hwn yw gwella bioamrywiaeth yr ynys, tra bod amcan 2 y GCI yn canolbwyntio ar hyrwyddo datblygu tai a allai gael effeithiau andwyol ar rwydweithiau ecolegol.

## Amcanion ansicr y CDLl a'r GCI

- Mae cydnawsedd amcan 2 y CDLl ac amcanion 1, 5, 6, 8, 9, 10, 11 a 13 y CGI yn ansicr. Mae hyn oherwydd bod amcan 2 y CDLl yn ceisio arallgyfeirio amaethyddol, a all sicrhau gwydnwch a hyfywedd parhaus ffermio yn y dyfodol, er bod maint yr effeithiau yn ansicr. Byddai'r effeithiau'n dibynnu ar natur a math y datblygiad a anogir, megis ei raddfa ac a oes ganddo effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Yn ogystal, a fydd yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr, llygredd aer a/neu a fydd angen llawer o ddŵr. Gallai cefnogi'r economi wledig hefyd arwain at gynnydd mewn

teithiau i ardaloedd mwy gwledig neu fel arall lleihau teithiau os yw gweithwyr amaethyddol wedi'u lleoli gerllaw.

- Mae cydnawsedd amcan 4 y CDLl ac amcanion 6, 8, 10 a 13 y GCI yn ansicr. Mae hyn oherwydd y gallai twf yr economi ymwelwyr gael effeithiau andwyol o ran a yw datblygiad yn gydnaws neu'n anghydnaws â'r gofyniad i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol a thirweddau sensitif. Gallai hefyd roi pwysau ar adnoddau dŵr a systemau rheoli gwastraff Ynys Môn.

## Argymhellion

- Mae amcan 2 y CDLl yn ceisio darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig. Gellid diwygio geiriad yr amcan hwn i gynnwys cyfeiriad at gyfleoedd datblygu cynaliadwy.
- Gellid disodli'r ymadrodd "wedi'i ddiogelu'n ddigonol" o dan amcan 4 y CDLl gyda "wedi'i ddiogelu a'i wella".
- Gallai amcan 11 y CDLl gyfeirio at geoamrywiaeth, yn ogystal â bioamrywiaeth, os yw'n briodol.
- Gallai amcan 12 y CDLl geisio "diogelu a gwella" yr amgylchedd hanesyddol, nid dim ond "diogelu". Gellid cyfeirio hefyd at leoliad asedau treftadaeth, gan fod hyn yn rhan o'u harwyddocâd.
- Nid yw amcanion y CDLl ar hyn o bryd yn cyfeirio at flaenoriaethu defnyddio tir llwyd. Gellid ychwanegu amcan ar hyn, neu fel arall gellid ehangu amcan 14 i gwmpasu'r mater hwn ochr yn ochr â gwastraff.

# Pennod 4

## Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig o'r opsiynau twf

**4.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried 11 senario twf amgen. Bydd y senario a ffefrir yn pennu faint o ddatblygiad preswyl a chyflogaeth a gyflawnir dros gyfnod y cynllun.

**4.2** Cyflwynir pob un o'r 11 senario twf yn Nhabl 4.1. Maent wedi cael eu haildrefnu (o'u cymharu â sut maent yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori) o'r isaf i'r uchaf o ran cyfanswm nifer yr anheddau y byddai pob un yn eu darparu dros y cyfnod 2024-2039.

**4.3** Oherwydd y nifer fawr o senarios sy'n cael eu hystyried a'r graddfeydd twf tebyg iawn a fyddai'n cael eu cyflawni o dan rai o'r opsiynau, mae LUC wedi'u grwpio i bedwar categori at ddibenion gwerthuso: isel, canolig, canolig-uchel, ac uchel. Mae hyn yn cynorthwyo i nodi effeithiau arwyddocaol tebygol (fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AAS) ac i amlygu gwahaniaethau rhwng yr un lefelau twf cyffredinol. O fewn pob grŵp o opsiynau, mae opsiynau felly sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd a fyddai'n darparu mwy neu lai o ddatblygiad o'i gymharu ag opsiynau eraill o fewn y grŵp hwnnw, ac felly byddai'r effeithiau ychydig yn wahanol. Er enghraifft, gall opsiwn ar ben uchaf yr ystod sydd wedi'i gynnwys mewn grŵp gael effeithiau ychydig yn fwy amlwg (cadarnhaol a negyddol) o'i gymharu â'r opsiynau isaf o fewn yr un grŵp hwnnw. Fodd bynnag, nid oes trothwy na chynhwysedd cario wedi'i ddiffinio sy'n gysylltiedig â phob amcan GCI a fyddai'n galluogi nodi gwahanol effeithiau rhwng opsiynau tebyg iawn. Felly, ystyrir ei bod yn briodol grwpio'r opsiynau, ond dylid cydnabod bod yr effeithiau i ryw raddau yn raddfa symudol a lle gall opsiwn gynnwys graddfa o dwf tuag at frig neu waelod yr ystod o fewn ei grŵp, dylid ystyried yr effeithiau yn unol â hynny.

Cyflwynir canfyddiadau'r GCI ar gyfer yr opsiynau twf isel, canolig, canolig-uchel ac uchel yn

**4.4** Nhabl 4.2 ac fe'u disgrifir o dan y tabl yn ôl amcan GCI.

**Tabl 4.1: Grwpio'r senarios twf**

| Rhif y senario twf | Enw'r senario twf | Cyfartaledd twf cyflogaeth blynyddol | Anheddau y flwyddyn | Cyfanswm nifer yr anheddau (2024-2039) | Grŵp a ddyrannwyd (isel, canolig, canolig uchel, uchel) |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Tuedd 15 mlynedd | 2 | 16 | 240 | Isel |
| 7 | LIC (wedi'i ail-seilio) | -0.4 | 33 | 495 | Isel |
| 6 | LIC - 2018 | 2 | 34 | 510 | Isel |
| 9 | Sylfaen OE | 113 | 100 | 1,500 | Canolig |
| 5 | Tuedd 5 mlynedd | 49 | 105 | 1,575 | Canolig |
| 4 | 15 mlynedd dan arweiniad anheddau | 66 | 121 | 1,815 | Canolig |
| 3 | 5 mlynedd dan arweiniad anheddau | 98 | 154 | 2,310 | Canolig |
| 10 | Porthladd Rhydd | 106 | 239 | 3,585 | Canolig-uchel |
| 1 | Anghenion a nodwyd gan yr AFDL | | 269 | 4,035 | Canolig-uchel |
| 11 | Porthladd Rhydd a Wylfa | 588 | 356 | 5,340 | Uchel |
| 2 | “Dull Safonol” | | 390 | 5,850 | Uchel |

**Tabl 4.2: Canfyddiadau GCI o'r opsiynau twf**

| Opsiwn twf | GCI1 | GCI2 | GCI3 | GCI4 | GCI5 | GCI6 | GCI7 | GCI8 | GCI9 | GCI10 | GCI11 | GCI12 | GCI13 | GCI14 | GCI15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Isel | 0 | -? | 0 | 0 | Amh | -? | 0 | -? | -? | - | 0 | Amh | - | -- | -- |
| Canolig | 0 | +? | 0 | 0 | Amh | -? | + | -? | -? | - | 0 | Amh | - | + | + |
| Canolig-uchel | -- | ++ | + | + | Amh | --? | + | --? | --? | -- | - | Amh | - | + | + |
| Uchel | -- | ++ | + | + | Amh | --? | + | --? | --? | -- | - | Amh | - | ++ | ++ |

## Amcan 1 y GCI: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a lleihau'r risg o lifogydd

**4.5** Mae ardaloedd o Barthau Llifogydd 2 a 3 yn Ynys Môn, yn ogystal ag ardaloedd lle mae perygl llifogydd (yn amrywio o risg uchel i risg isel) sy'n gysylltiedig â'r môr, afonydd, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr a chronfeydd dŵr. Mae’n debygol y bydd newid hinsawdd yn cyfrannu at gynnydd yn amlder llifogydd, er bod gan Ynys Môn nifer gymharol isel o eiddo sydd mewn perygl llifogydd. Mae'r rhan fwyaf o lifogydd ar yr ynys o ganlyniad i lifogydd dŵr wyneb sy'n achosi i'r system garthffosiaeth bresennol gael ei gorlwytho. Byddai'r opsiwn twf uchel yn arwain at lawer iawn o ddatblygiadau newydd, a fyddai'n debygol o gael effeithiau negyddol penodol o ran gwaethygu problemau gyda llifogydd dŵr wyneb. Ymhellach i hyn, byddai faint o ddatblygiad a gynigir o dan yr opsiwn twf uchel yn cyfrannu fwyaf at gynnydd yn nifer y bobl a'r ceir ar yr ynys, gan arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae hyn yn broblem yn arbennig o ran defnyddio ceir preifat, gan fod cyfraddau perchnogaeth ceir ar yr ynys yn uwch na chyfartaledd Cymru – yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Ynys Môn lle mae cyfraddau mor uchel â 95%. Yn gyffredinol, felly, disgwylir i'r opsiwn twf uchel gael effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 1 y GCI. Byddai gan yr opsiwn twf canolig-uchel effeithiau tebyg i'r opsiwn twf uchel, ond i raddau ychydig yn llai. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf canolig-uchel hefyd gael effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas â'r amcan hwn.

**4.6** Byddai'r opsiwn twf isel yn arwain at faint mwy cyfyngedig o ddatblygiad dros gyfnod y cynllun, gan ddarparu llai o gartrefi na CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd. Gan fod Ynys Môn yn profi gostyngiad net yn ei phoblogaeth ar hyn o bryd o dan y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd, mae'n debygol y byddai'r opsiwn twf isel yn golygu bod y gostyngiad net hwn yn parhau. Er y byddai rhywfaint o ddatblygiadau newydd, byddai'n fwy tebygol y gellid osgoi ardaloedd lle mae mwy o berygl llifogydd a byddai llai o bobl a cheir ar yr ynys yn cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth. Yn ogystal, gan mai dim ond swm cyfyngedig o ddatblygiad fyddai'n cael ei ddilyn, mae'n debygol y gellid lleoli datblygiad mewn ardaloedd nad ydynt mewn perygl llifogydd. Felly, mae'n annhebygol y byddai risg uwch o lifogydd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn broblem i drigolion newydd. At ei gilydd, disgwylir i'r opsiwn twf isel gael effaith ddibwys mewn perthynas ag amcan 1 y GCI.

**4.7** Byddai'r opsiwn twf canolig hefyd yn darparu llai o ddatblygiad nag a ganiateir yn y CDLl mabwysiedig ac felly ystyrir ei fod hefyd yn debygol o arwain at ostyngiad parhaus ym mhoblogaeth breswyl Ynys Môn. Fodd bynnag, mae graddfa'r datblygiad adeiladu newydd yn uwch o'i gymharu â'r opsiwn twf isel ac felly byddai'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r

datblygiad hynny yn uwch. At ei gilydd, disgwylir i'r opsiwn twf canolig gael effaith ddibwys mewn perthynas ag amcan 1 y GCI.

## Amcan 2 y GCI: Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol

**4.8** Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) Ynys Môn yn cyfrifo ffigurau'r angen am dai ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar dri senario rhagolygon aelwydydd: prif ragamcan Llywodraeth Cymru (269 o anheddau y flwyddyn), rhagamcan uwch (310 o anheddau y flwyddyn) a rhagamcan is (236 o anheddau y flwyddyn).

**4.9** Byddai'r opsiwn twf uchel yn darparu o leiaf 356 o anheddau y flwyddyn, tra byddai'r opsiwn twf canolig-uchel yn darparu o leiaf 239 o anheddau y flwyddyn. Felly, byddai'r ddau opsiwn yn cyflawni'r ffigurau angen tai a nodwyd yn yr AFDL. Felly, disgwylir iddynt gael effeithiau cadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas â'r amcan hwn. Byddai'r opsiwn twf canolig yn darparu o leiaf 100 o anheddau'r flwyddyn ac felly er y byddai hefyd yn cyfrannu at ddarparu tai, ni fyddai'n bodloni'r ffigurau angen tai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf canolig gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag amcan 2 y GCI. Byddai'r opsiwn twf isel yn darparu o leiaf 16 o anheddau y flwyddyn, sy'n sylweddol is na'r ffigurau angen tai a nodwyd yn yr AFDL. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf isel gael effaith negyddol fach mewn perthynas ag amcan 2 y GCI.

**4.10** Oherwydd cyfraddau cyflenwi hanesyddol, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o dan-gyflenwi tai. Byddai hyn yn fwy tebygol o dan yr opsiynau twf isel a chanolig gan eu bod yn cynnwys darparu llai o gartrefi na'r ddau opsiwn arall, yn ogystal â CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd sy'n ceisio darparu 232 o anheddau y flwyddyn – lle bu tan-ddarparu o gartrefi oddi tano. Byddai'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn darparu nifer sylweddol o anheddau newydd, sydd â'r potensial i wella fforddiadwyedd tai trwy gynyddu'r cyflenwad. Gall nifer uwch o anheddau hefyd gynyddu hyfywedd y ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae gan well fforddiadwyedd y potensial i ddenu mwy o bobl i'r ardal, yn enwedig gan fod prisiau tai yn Ynys Môn dros saith gwaith yr incwm cyfartalog. Felly, cofnodir bod effeithiau'r opsiynau twf isel a chanolig yn ansicr.

## Amcan 3 y GCI: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu

**4.11** Mae'n debygol y byddai'r twf a gynigir o dan yr opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ar yr ynys, gan roi pwysau ar gyfleusterau addysg a chymunedol presennol. Fodd bynnag, gallai'r opsiynau hynny hefyd helpu i sicrhau hyfywedd cyfleusterau addysg a chymunedol presennol yn y dyfodol, tra hefyd yn cynhyrchu cyfalaf i gefnogi darparu gwasanaethau a chyfleusterau newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod y boblogaeth sy'n heneiddio ar Ynys Môn yn creu straen ar rai gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai cynnydd yn nifer y bobl ar yr ynys o dan y ddau opsiwn hyn hefyd helpu i hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedau presennol a chreu cymunedau cymysg, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Felly, disgwylir i'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel gael effeithiau cadarnhaol bach mewn perthynas ag amcan 3 y GCI.

**4.12** Byddai'r opsiynau twf isel a chanolig yn darparu llai o gartrefi na CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd. Gan fod Ynys Môn yn profi gostyngiad yn y boblogaeth ar hyn o bryd o dan y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd, sydd â tharged tai uwch na'r ddau opsiwn twf isel a chanolig, mae'n debygol y byddai'r ddau opsiwn yn arwain at barhad y gostyngiad hwn. Gallai hyn danseilio hyfywedd cyfleusterau addysg a chymunedol presennol, er y byddai'r risg o gyfleusterau presennol dan bwysau cynyddol hefyd yn cael ei osgoi. Felly, disgwylir i'r opsiynau twf isel a chanolig gael effeithiau dibwys ar y cyfan mewn perthynas ag amcan 3 y GCI.

## Amcan 4 y GCI: Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol ar Ynys Môn

**4.13** Mae'n debygol y byddai'r twf a gynigir o dan yr opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ar yr ynys, gan roi pwysau ar wasanaethau gofal iechyd presennol. Fodd bynnag, gallai'r opsiynau hefyd helpu i sicrhau hyfywedd gwasanaethau gofal iechyd presennol yn y dyfodol, yn enwedig y rhai mewn rhannau mwy gwledig o'r ynys, tra hefyd yn cynhyrchu cyfalaf i gefnogi darparu gwasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd newydd. Mae hyn yn bwysig, gan fod poblogaeth sy'n heneiddio yn Ynys Môn yn creu straen ar wasanaethau gofal iechyd. Yn yr un modd, gallai faint o dwf a gynigir o dan yr opsiynau hyn roi pwysau ar fannau agored presennol,

er y gallai datblygiad gynnwys darparu mannau agored newydd. At ei gilydd, disgwylir i'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel gael effeithiau cadarnhaol bach mewn perthynas ag amcan 4 y GCI.

**4.14** Byddai'r opsiynau twf isel a chanolig yn darparu llai o gartrefi na CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd. Gan fod Ynys Môn yn profi gostyngiad yn y boblogaeth ar hyn o bryd o dan y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd, sydd â tharged tai uwch na'r ddau opsiwn twf isel a chanolig, mae'n debygol y byddai'r ddau opsiwn yn arwain at barhad y gostyngiad hwn. Gall hyn danseilio hyfywedd cyfleusterau gofal iechyd presennol, er bod cyfleusterau presennol yn llai tebygol o ddod o dan bwysau cynyddol. Felly, disgwylir i'r opsiynau twf isel a chanolig gael effeithiau dibwys ar y cyfan mewn perthynas ag amcan 4 y GCI.

## Amcan 5 y GCI: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy

**4.15** Mae lleoliad twf yn hytrach na maint y twf yn dylanwadu ar yr angen i deithio ac argaeledd a defnydd dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Felly, mae'r amcan GCI hwn wedi'i eithrio o'r gwerthusiad o opsiynau twf.

## Amcan 6 y GCI: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig

**4.16** Mae Ynys Môn yn cynnwys 12 ardal gadwraeth, 1,125 o adeiladau rhestredig a 432 o henebion cofrestredig, gyda rhai o'r adeiladau rhestredig yn cael eu hystyried yn rhai sydd mewn perygl. Oherwydd treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Ynys Môn, mae'n debygol y byddai datblygiad newydd yn arwain at effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol, er bod hyn i raddau helaeth yn dibynnu ar leoliad a dyluniad datblygiadau unigol yn hytrach na graddfa gyffredinol y datblygiad a gynlluniwyd.

**4.17** Byddai'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn arwain at lawer iawn o ddatblygiad ar yr ynys. Felly, mae'n fwy tebygol y byddai rhywfaint o'r datblygiad hwn yn agos at asedau treftadaeth, a allai effeithio ar yr asedau eu hunain neu eu lleoliadau. Felly, gallai'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel gael effeithiau negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 6 y GCI er bod hyn yn ansicr yn dibynnu ar leoliad datblygiadau unigol. Byddai'r opsiwn twf canolig yn arwain at faint llai o ddatblygiad na'r ddau opsiwn hyn, ond byddai graddfa o ddatblygiad yn dal i fod a allai gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol. Felly, gallai'r opsiwn twf canolig gael effaith negyddol fach mewn perthynas ag amcan 6 y GCI er bod hyn yn ansicr unwaith eto. Byddai'r opsiwn twf isel

yn arwain at lai o ddatblygiad felly mae'n fwy tebygol y byddai modd osgoi effeithiau andwyol ar asedau treftadaeth a'u lleoliadau. Fodd bynnag, mae potensial o hyd i ddatblygu cannoedd o gartrefi newydd y flwyddyn gael effeithiau andwyol. Felly, nodir effaith negyddol fach bosibl ond ansicr hefyd ar gyfer yr opsiwn twf isel mewn perthynas ag amcan 6 y GCI.

## Amcan 7 y GCI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg

**4.18** Gallai datblygiad newydd ar Ynys Môn gael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio a hyrwyddo’r iaith Gymraeg, gan y gallai alluogi mwy o bobl iau i barhau i fyw a gweithio ar yr ynys. Mae'n debyg y byddai maint y twf sy'n gysylltiedig â'r opsiwn twf isel yn cael effaith ddibwys, tra bod effeithiau cadarnhaol bach yn gysylltiedig â'r opsiynau twf canolig, canolig-uchel ac uchel.

## Amcan 8 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd

**4.19** Mae arfordir Ynys Môn yn Dirwedd Genedlaethol, tra bod yr ynys yn cynnwys chwe Ardal Tirwedd Arbennig dynodedig. Mae'r rhain wedi'u dynodi i ddiogelu ardaloedd o ansawdd tirwedd uchel ar Ynys Môn. Oherwydd sensitifrwydd uchel y dirwedd ar yr ynys, mae'n debygol y gallai datblygiadau preswyl a chyflogaeth newydd o dan unrhyw un o'r opsiynau gael effeithiau andwyol ar y dirwedd, er bod effeithiau i raddau helaeth yn dibynnu ar leoliad y datblygiad – megis ei agosrwydd at y Dirwedd Genedlaethol – a'i ddyluniad a'i gynllun.

**4.20** Byddai'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn arwain at gryn dipyn o ddatblygiad ar yr ynys ac felly mae effeithiau negyddol arwyddocaol posibl wedi'u nodi mewn perthynas ag amcan 8 y GCI. Byddai'r opsiynau twf canolig ac isel yn arwain at faint mwy cyfyngedig o ddatblygiad ac felly byddai'r effeithiau ar y dirwedd hefyd yn fwy cyfyngedig. Felly, mae gan yr opsiynau hyn effeithiau negyddol bach posibl mewn perthynas ag amcan 8 y GCI. Mae'r holl effeithiau'n ansicr gan fod yr effeithiau gwirioneddol yn dibynnu ar ddyluniad, graddfa a chynllun terfynol y datblygiad.

## Amcan 9 y GCI: Diogelu a gwella bioamrywiaeth

**4.21** Mae gan Ynys Môn gyfoeth o fioamrywiaeth – mae saith Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) daearol, pedair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), un safle Ramsar a nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae hefyd chwech o

Warchodfeydd Natur Lleol (GNLau), un Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG), pedair gwarchodfa RSPB ac ardaloedd niferus o Goetir Hynafol. Mae rhywogaethau gwarchodedig hefyd yn bresennol ar yr ynys. Felly, mae twf ar yr ynys yn debygol o gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth, er bod hyn yn ddibynnol iawn ar leoliad y twf a'i ddyluniad.

**4.22** Byddai'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel yn arwain at dwf sylweddol mewn preswylfeydd a chyflogaeth ar yr ynys, a fyddai'n fwy tebygol o gael effeithiau andwyol ar yr asedau bioamrywiaeth sy'n bresennol. Felly, gallai'r opsiynau twf hyn gael effeithiau negyddol arwyddocaol perthynas ag amcan 9 y GCI.

**4.23** Byddai'r opsiynau twf canolig ac isel yn dal i arwain at swm eithaf sylweddol o ddatblygiad newydd, ond mae'n debygol y bydd ganddynt lai o effaith ar fioamrywiaeth – yn enwedig yr opsiwn twf isel. Felly, gallai'r opsiynau twf hyn gael effeithiau negyddol bach mewn perthynas ag amcan 9 y GCI.

**4.24** Mae'r holl effeithiau'n ansicr gan y bydd yr effeithiau gwirioneddol yn dibynnu ar ddyluniad, graddfa a chynllun terfynol y datblygiad a ffactorau megis a yw mannau gwyrdd yn cael eu hymgorffori yn y datblygiad ai peidio.

## Amcan 10 y GCI: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr Ynys Môn

**4.25** Mae'n debygol y bydd faint o ddatblygiad a gynigir o dan y pedwar opsiwn twf yn rhoi straen ar adnoddau dŵr Ynys Môn, gan fod rhai dalgylchoedd afonydd heb ddŵr ar gael. Fodd bynnag, byddai'r effaith hon yn dibynnu i ryw raddau ar leoliad y datblygiad. Byddai'r opsiynau twf isel a chanolig yn rhoi llai o straen ar adnoddau dŵr Ynys Môn na'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel, gan na fyddent yn arwain at gynnydd sylweddol mewn datblygiad ar yr ynys. Yn gyffredinol, felly, disgwylir i'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel gael effeithiau negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 10 y GCI, tra disgwylir i'r opsiynau twf isel a chanolig gael effeithiau negyddol bach. Mae'n fwy tebygol y bydd lleoliad y datblygiad yn dylanwadu ar ansawdd adnoddau dŵr yn hytrach na faint o ddatblygiad fydd.

## Amcan 11 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd aer

**4.26** Nid yw Ynys Môn yn profi ansawdd aer gwael gan fod lefelau llygredd yn is na'r amcanion ansawdd aer statudol. Fodd bynnag, mae cyfraddau perchnogaeth ceir ar Ynys Môn eisoes yn uchel ac yn uwch na chyfartaledd Cymru ac felly allan o'r pedwar opsiwn twf, mae'n debygol mai'r opsiwn twf uchel a chanolig-uchel fydd yn cyfrannu fwyaf at ddirywiad posibl yn ansawdd yr aer o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl a'r ceir ar yr ynys, a llygredd aer cysylltiedig. Felly, disgwylir i'r opsiynau twf uchel a chanolig-uchel gael effeithiau negyddol bach mewn perthynas ag amcan 11 y

GCI. Ni fyddai'r opsiynau twf isel a chanolig yn arwain at gynnydd sylweddol yng ngraddfa'r datblygiad a'r defnydd cysylltiedig o gerbydau ar yr ynys ac felly disgwylir iddynt gael effeithiau dibwys mewn perthynas ag amcan 11 y GCI.

## Amcan 12 y GCI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau

**4.27** Mae lleoliad twf yn hytrach na faint o dwf yn dylanwadu ar a yw tir, priddoedd a mwynau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ai peidio. Felly, mae'r amcan GCI hwn wedi'i eithrio o'r gwerthusiad o opsiynau twf.

## Amcan 13 y GCI: Parhau i leihau cynhyrchu gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff mwy cynaliadwy

**4.28** Byddai faint o dwf a gynigir o dan bob un o'r opsiynau twf yn cyfrannu at gynnydd mewn cynhyrchu gwastraff, gan gynnwys yn y tymor byr fel rhan o adeiladu anheddau ac adeiladau newydd at ddefnydd cyflogaeth. Fodd bynnag, arferion ar y safle fydd yn pennu'r effeithiau'n bennaf. Felly, disgwylir i bob un o'r pedwar opsiwn twf gael effeithiau negyddol bach mewn perthynas ag amcan 13 y GCI.

## Amcan 14 y GCI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy

**4.29** Yr opsiwn twf uchel fyddai'n darparu'r swm mwyaf o dwf cyflogaeth o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio yn Ynys Môn sydd â'r potensial i danseilio gallu'r ynys i ddenu cyflogwyr. Yn ogystal â hyn, byddai'r opsiwn yn darparu nifer sylweddol o gartrefi newydd a fyddai'n helpu i gynyddu'r cyflenwad tai a fforddiadwyedd cyffredinol, gan ddenu mwy o bobl iau i fyw a gweithio yn yr ardal o bosibl. Mae hyn yn bwysig, gan fod y gweithlu yn Ynys Môn yn lleihau. Byddai hefyd yn helpu i leihau dibyniaeth Ynys Môn ar y sector twristiaeth fel prif ffynhonnell incwm. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf uchel gael effaith gadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 14 y GCI.

**4.30** Byddai'r opsiynau twf canolig a chanolig-uchel hefyd yn darparu cryn dipyn o dwf cyflogaeth, gyda'r opsiwn twf canolig-uchel hefyd yn debygol o ddarparu nifer fawr o gartrefi newydd a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau fforddiadwyedd tai drwy gynyddu'r cyflenwad o dai. Felly, disgwylir i'r ddau opsiwn gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag amcan 14 y GCI, yn enwedig yr opsiwn twf canolig-uchel oherwydd darparu nifer fwy o gartrefi newydd.

**4.31** Byddai'r opsiwn twf isel yn darparu llai o dwf cyflogaeth o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Mae hyn yn broblemus o ystyried y gyfres o gaeadau diwydiannol sydd wedi digwydd yn Ynys Môn, gan arwain at golli dros 2,300 o swyddi uniongyrchol. Felly, ni fyddai'r opsiwn twf isel yn helpu i sicrhau economi gynaliadwy ac felly disgwylir effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 14 y GCI.

## Amcan 15 y GCI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi

**4.32** Y dewis twf uchel fyddai'n darparu'r twf cyflogaeth mwyaf o'i gymharu â'r dewisiadau eraill, yn rhannol gan ei fod yn ystyried y cyfleoedd swyddi lleol y byddai datblygiadau yn Wylfa a'r Porthladd Rhydd yn eu cynnig. Felly, mae ganddo fwy o botensial i ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi na'r opsiynau eraill. Yn ogystal â hyn, byddai'n darparu nifer sylweddol o gartrefi newydd. Mae hyn yn bwysig, gan fod gallu trigolion i brynu a rhentu tai yn lleol yn pennu pa mor fawr yw'r gweithlu sydd ar gael yn rhwydd mewn ardal. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf uchel gael effaith gadarnhaol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 15 y GCI.

**4.33** Byddai'r opsiynau twf canolig a chanolig-uchel hefyd yn darparu llawer iawn o dwf cyflogaeth, gyda'r opsiwn twf canolig-uchel hefyd yn debygol o ddarparu nifer fawr o gartrefi newydd a fyddai'n helpu i gefnogi argaeledd gweithlu yn yr ardal. Felly, disgwylir i'r ddau opsiwn gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag amcan 15 y GCI, yn enwedig yr opsiwn twf canolig-uchel oherwydd darparu nifer fwy o gartrefi newydd.

**4.34** Byddai'r opsiwn twf isel yn darparu ychydig bach o dwf cyflogaeth o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Fel y disgrifiwyd o dan yr amcan blaenorol, mae hyn yn broblemus o ystyried y gyfres o gaeadau diwydiannol sydd wedi digwydd yn Ynys Môn, gan arwain at golli dros 2,300 o swyddi uniongyrchol lle nad oes swyddi wedi dod yn eu lle. Felly, disgwylir i'r opsiwn twf isel gael effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 15 y GCI.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

**4.35** Mae'n debygol y bydd gan yr opsiwn twf uchel y nifer uchaf o effeithiau cadarnhaol arwyddocaol yn erbyn amcanion y GCI, gan y bydd gan faint o ddatblygiad newydd y bydd yn ei ddarparu

y potensial i helpu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd tai, tra hefyd yn denu mwy o bobl i'r ynys. Fodd bynnag, yr opsiwn twf uchel, ynghyd â'r opsiwn twf canolig-uchel, hefyd sydd â'r nifer uchaf o effeithiau negyddol arwyddocaol tebygol gan y byddai faint o ddatblygiad a gynigir o dan yr opsiynau hyn yn golygu bod effeithiau andwyol ar amgylchedd naturiol ac adeiledig sensitif yr ynys yn fwy tebygol.

**4.36** Yr opsiwn twf canolig-uchel sydd â'r nifer uchaf o effeithiau cadarnhaol bach tebygol ac un effaith gadarnhaol arwyddocaol debygol ac felly nid yw'n perfformio cystal â'r opsiwn twf uchel ond byddai ganddo effeithiau buddiol tebyg o ran twf a fforddiadwyedd tai. Disgwylir iddo gael yr un nifer o effeithiau negyddol arwyddocaol a negyddol bach â'r opsiwn twf uchel.

**4.37** Nid oes gan yr opsiynau twf isel a chanolig unrhyw effeithiau cadarnhaol arwyddocaol tebygol a dim ond yr opsiwn twf canolig a ddisgwylir i gael cwpl o effeithiau cadarnhaol bach. Mae'r opsiwn twf canolig yn perfformio ychydig yn well na'r opsiwn twf isel, ond fel yr opsiwn twf isel dim ond swm cyfyngedig o ddatblygiad y byddai'n ei gefnogi. Gellir dadlau y byddai'r opsiynau hyn yn cynnal y status quo drwy gadw lefelau datblygiad newydd yn is ac felly osgoi'r effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig ag ef, ond heb gyflawni gwelliannau'n weithredol. Felly mae ei effeithiau ar amcanion y GCI yn tueddu i fod yn fwy dibwys nag yn gadarnhaol.

**4.38** Byddai cyflawni mwy o ddatblygiad, fel sy'n wir o dan yr opsiynau twf uchel a chanolig-uchel, yn arwain at fwy o gyfaddawd rhwng manteision cymdeithasol ac economaidd twf a'r effeithiau amgylcheddol posibl, tra bod yr opsiynau twf is a chanolig efallai'n cynrychioli mwy o gydbwysedd rhwng yr ystyriaethau hyn, gydag effeithiau cadarnhaol a negyddol llai amlwg ar y cyfan.

# Pennod 5

## Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig o'r opsiynau gofodol

**5.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried tri opsiwn amgen ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad. Bydd yr opsiwn a ffefrir yn pennu ble y bydd datblygiadau preswyl a chyflogaeth dros gyfnod y cynllun yn cael eu cyfeirio.

**5.2** Y dewisiadau gofodol yw:

- Opsiwn Gofodol A: Ffocws ar aneddiadau allweddol
- Opsiwn Gofodol B: Datblygiad gwasgaredig
- Opsiwn Gofodol C: Ffocws ar y coridor trafnidiaeth

**5.3** Mae LUC wedi gwerthuso pob un o'r tri opsiwn gofodol. Cyflwynir y canfyddiadau yn Nhabl 5.1 ac fe'u disgrifir o dan y tabl yn ôl amcan GCI.

**Tabl 5.1: Canfyddiadau GCI o'r opsiynau gofodol**

| Opsiwn gofodol | GCI1 | GCI2 | GCI3 | GCI4 | GCI5 | GCI6 | GCI7 | GCI8 | GCI9 | GCI10 | GCI11 | GCI12 | GCI13 | GCI14 | GCI15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A: Ffocws ar aneddiadau allweddol | ++/-? | ++/- | ++/- | ++/- | ++/- | --/+? | 0 | -? | --? | --? | ++ | ++ | Amh | ++/- | ++/- |
| B: Datblygiad gwasgaredig | --/+? | ++/- | +/- | +/- | -- | - | +? | --? | --? | --? | -- | -- | Amh | +/- | +/- |
| C: Ffocws ar y coridor trafnidiaeth | ++/-? | +/- | --/+ | +/- | ++/- | - | 0 | --? | -? | --? | ++/-- | +/- | Amh | +/- | ++/- |

## Amcan 1 y GCI: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a lleihau'r risg o lifogydd

**5.4** Roedd allyriadau $CO_2$ yn Ynys Môn yn mesur 4.3 tunnell y pen, yn uwch nag awdurdodau cyfagos Gwynedd a Chonwy ond yn is nag allyriadau Cymru. O fewn Ynys Môn, mae ardaloedd o Barthau Llifogydd 2 a 3 wedi'u gwasgaru ar draws yr ynys, yn ogystal ag ardaloedd lle mae perygl llifogydd (yn amrywio o risg uchel i risg isel) sy'n gysylltiedig â'r môr, afonydd, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr a chronfeydd dŵr. Mae ardal fawr o Barth Llifogydd 3 (risg uchel o lifogydd) wedi'i lleoli ym mhen deheuol yr ynys, o amgylch Afon Cefni. Priodolir y rhan fwyaf o lifogydd ar yr ynys i lifogydd dŵr wyneb, gan achosi gorlwytho'r systemau carthffosiaeth presennol. Mae'r mater hwn yn arbennig o gyffredin yng Nghaergybi, Biwmares, Dwyran a Llangefni. Mae Llangefni a Dwyran wedi'u lleoli ar afonydd ac mae'r risgiau llifogydd yma'n ganlyniad i ddŵr ffo wyneb, systemau carthffosiaeth a llifogydd afonydd dan ddylanwad y llanw.

**5.5** Byddai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio datblygiad ar brif aneddiadau allweddol Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy. Byddai canolbwyntio datblygiad o amgylch y canolfannau trefol allweddol hyn sy'n bodoli eisoes yn arwain at gyfran sylweddol o bobl yn byw yn agos at eu gweithle, gwasanaethau a chyfleusterau lleol, gan annog teithio llesol a lleihau dibyniaeth ar geir a fyddai'n fuddiol o ystyried bod cyfradd perchnogaeth ceir cyfartalog aelwydydd Ynys Môn (85%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (80%). Byddai ffocws ar dir trefol tir llwyd o dan yr opsiwn hwn yn atal datblygu ar goedwigoedd a glaswelltiroedd presennol sy'n gweithredu fel sinciau carbon. Fodd bynnag, gall problemau adfer a hyfywedd gyfyngu ar faint o dir llwyd sydd ar gael i gyflawni'r lefelau twf gofynnol. Mae'r ardal lle mae'r ffocws datblygu mwyaf, Caergybi, yn gorwedd y tu allan i barthau llifogydd yn bennaf, ar wahân i ardal i'r gogledd, ac o'r herwydd ni ddisgwylir i ddatblygiad yn yr ardal hon gyfrannu'n sylweddol at y risg o lifogydd. Fodd bynnag, mae'r anheddiad mewn perygl o orlwytho'r systemau carthffosiaeth presennol ac felly mae'n debyg y byddai datblygiad yn gwaethygu'r broblem hon. Bydd datblygiad o amgylch aneddiadau llai eraill yn cyd-daro â pharthau risg llifogydd, fel o amgylch Rhosneigr ac Amlwch. At ei gilydd, disgwylir effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 1 y GCI ar gyfer Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol). Ystyrir bod yr effaith yn ansicr, gan fod maint yr effaith ar berygl llifogydd yn dibynnu ar ble o fewn ac o amgylch pob un o'r aneddiadau y bydd datblygiad newydd wedi'i leoli.

5.6 Byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn gwasgaru datblygiad rhwng aneddiadau ar lefel gymesur â maint pob anheddiad ond byddai ganddo fwy o ffocws ar gymunedau gwledig nag Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol), gan wasgaru twf ymhellach rhwng aneddiadau gan gynnwys pentrefi a chlystyrau. Gan y byddai hyn yn debygol o arwain at fwy o boblogaeth Ynys Môn yn cael eu lleoli

ymhellach o waith a gwasanaethau mewn aneddiadau allweddol sylfaenol mwy, rhagwelir cynnydd mewn teithiau car a phellter teithio, a fyddai'n arwain at allyriadau uwch. Efallai y bydd Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) hefyd yn gofyn am seilwaith newydd, llai canolog ar draws yr ynys i ddarparu ar gyfer y twf gwasgaredig. Gall y ddibyniaeth ar dir maes glas hefyd leihau gorchudd sinciau carbon presennol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn dal i arwain at gyfran o ddatblygiad yn digwydd yn yr aneddiadau mwy. Wrth annog twf ar draws nifer fwy o aneddiadau ac o ystyried natur wasgaredig ardaloedd Parthau Llifogydd 2 a 3 ar draws Ynys Môn, gallai Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) gynyddu'r risg o lifogydd ar draws nifer o ardaloedd, ond i raddau llai o ystyried y byddai twf yn gymesur â maint pob anheddiad.
At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith negyddol arwyddocaol ac effaith gadarnhaol fach gymysg ar amcan 1 y GCI, a fyddai'n ansicr oherwydd y ffaith bod lleoliad y datblygiad newydd yn debygol o bennu'r effaith ar y risg o lifogydd.

**5.7** Mae Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn cynnig canolbwyntio datblygiad ar hyd coridor yr A55 rhwng Porthaethwy a Chaergybi, gan ganolbwyntio ar safleoedd sydd â mynediad hawdd at ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus mewn sawl tref. Byddai'r strategaeth yn arwain at gyfran uwch o dwf yng Nghaergybi, Llangefni a Phorthaethwy (sy'n caniatáu mynediad hawdd i'r A55), yn ogystal â chanolfannau gwasanaeth lleol a phentrefi sydd â mynediad at ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, ni fyddai Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn gwneud y mwyaf o ddatblygiad yn Amlwch, sy'n un o'r pedwar anheddiad allweddol yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Wrth ganolbwyntio twf ar ganolfannau trafnidiaeth gynaliadwy, gall Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) annog pobl i beidio â defnyddio ceir a lleihau allyriadau cysylltiedig, a allai annog newid moddol. I'r gwrthwyneb, gallai canolbwyntio datblygiad ar hyd coridor yr A55 annog defnyddio ceir, gan ei gyflwyno fel yr opsiwn mwyaf deniadol ac arwain at gynnydd mewn allyriadau $CO_2$. Nodir bod llawer o'r safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u lleoli'n agos at goridor yr A55, a allai wneud teithio i'r gwaith yn fwy effeithlon. Er bod nifer o'r aneddiadau sy'n ffocws Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) o fewn neu'n agos at barthau llifogydd, gall crynodiad y datblygiad ei gwneud hi'n haws rheoli'r risg o lifogydd yn hytrach nag yn yr achos lle mae datblygiad yn fwy gwasgaredig a bod angen dod o hyd i atebion ar draws yr ynys. Yn wir, mae'r opsiwn hwn yn cyfeirio twf at y nifer isaf o aneddiadau allan o'r tri opsiwn gofodol. I'r gwrthwyneb, gall risg llifogydd gynyddu mewn aneddiadau allweddol gan greu problem fwy gan effeithio ar nifer fwy o aelwydydd. At ei gilydd, disgwylir effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 1 y GCI ar gyfer Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth). Mae'r effaith yn ansicr, gan y bydd yr effaith wirioneddol yn dibynnu ar leoliad penodol y datblygiad ac a yw o fewn parth llifogydd ai peidio.

## Amcan 2 y GCI: Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol

**5.8** Mae Ynys Môn yn wledig yn bennaf ac mae'n cynnwys cymysgedd o drefi bach, pentrefi a chymunedau gwledig gwasgaredig. Mae patrwm yr anheddiad wedi'i ddylanwadu gan ddaearyddiaeth yr ynys, gyda chanolfannau allweddol o boblogaeth a gweithgarwch economaidd yn cynnwys Caergybi, Llangefni ac Amlwch (Canolfannau Gwasanaeth Trefol), yn ogystal â Biwmares, Porthaethwy, Benllech a Gaerwen (Canolfannau Gwasanaeth Lleol). Gosododd CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd darged o ddarparu 7,184 o unedau tai newydd dros gyfnod y cynllun, a oedd yn cyfateb i darged o 3,480 o unedau newydd (232 o unedau newydd y flwyddyn) yn Ynys Môn. Fodd bynnag, mae nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd wedi gostwng islaw'r targedau hyn. Yn ogystal, nododd Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2025 brinder unedau fforddiadwy y flwyddyn. Mae'r gwerthusiad hwn o'r opsiynau gofodol yn canolbwyntio ar ddosbarthiad gofodol tai a'i oblygiadau ar gyfer amcanion y GCI; fodd bynnag, bydd cyfanswm y cartrefi i'w darparu o dan unrhyw un o'r tri opsiwn gofodol (yr ystyriwyd opsiynau ar eu cyfer ym Mhennod 4) yn allweddol wrth bennu effeithiau yn erbyn yr amcan hwn o'r GCI.

**5.9** Byddai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio datblygiad o amgylch yr aneddiadau allweddol sylfaenol, gan ddosbarthu twf newydd yn bennaf i safleoedd mawr o amgylch Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy, a hefyd safleoedd bach i ganolig yn y rhan fwyaf o ganolfannau gwasanaeth lleol a phentrefi. Byddai'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad dwysedd uwch mewn ardaloedd trefol, gan leihau gofynion tir a gwneud defnydd o safleoedd tir llwyd. Mewn aneddiadau llai, byddai twf yn fwy cyfyngedig i gyflenwad banc tir, safleoedd annisgwyl ac addasu unedau presennol. O ganlyniad i gyfran uchel o dai newydd sy'n cael eu darparu mewn nifer gyfyngedig o aneddiadau allweddol, mae posibilrwydd o fethu â diwallu anghenion tai cymunedau gwledig. Felly, disgwylir y bydd gan Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 2 y GCI.

**5.10** Byddai Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn dosbarthu datblygiad yn fwy cyfartal ar draws Ynys Môn ac yn darparu'r amrywiaeth fwyaf o safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl a allai wneud y mwyaf o ddosbarthiad tai fforddiadwy. I'r gwrthwyneb, mae'n llai tebygol y bydd Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn darparu tai fforddiadwy oherwydd byddai cynlluniau ar raddfa fach yn cael eu cyflwyno mewn aneddiadau llai, a allai effeithio ar hyfywedd tai fforddiadwy. At ei gilydd, mae'n debygol y bydd Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn cael effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 2 y GCI.

5.11 Byddai Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio datblygiad ar hyd coridor yr A55, gan ffafrio safleoedd sydd â mynediad hawdd i ganolfannau trafnidiaeth a dosbarthu cyfran uwch o dwf i Gaergybi, Llangefni, a Phorthaethwy fel

pwyntiau mynediad allweddol i'r A55. Er bod hyn yn cefnogi darparu tai mewn lleoliadau hygyrch, un pryder gyda'r opsiwn hwn yw y byddai'r rhan fwyaf o dai'r farchnad a thai fforddiadwy yn cael eu darparu mewn nifer gyfyngedig o aneddiadau, sydd i gyd ar ochr ddeheuol Ynys Môn, a allai adael ardaloedd mawr gydag anghenion tai heb eu diwallu. Gan y bydd Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn darparu tai, ond yn cynyddu anghydraddoldeb gofodol o ran cael mynediad at dai, ystyrir y bydd ganddo effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg ar amcan 2 y GCI.

## Amcan 3 y GCI: Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu

**5.12** Byddai twf ar Ynys Môn yn cynyddu poblogaeth yr ynys ac o ganlyniad yr angen am fwy o gyfleusterau addysg a chymunedol. Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau ysgolion lleiaf (llai na 10,000 o fyfyrwyr), dros 43 o ysgolion cynradd a phump o ysgolion uwchradd. Mae gan yr ynys boblogaeth sy'n heneiddio, gan greu straen ychwanegol ar wasanaethau a chyfleusterau presennol, yn enwedig gofal iechyd.

**5.13** Byddai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad dwysedd uwch mewn aneddiadau allweddol presennol, ac felly mewn lleoliadau sy'n addas i'r rhai ag anghenion ychwanegol neu uwch, gan gynnwys pobl hŷn, trwy leoli tai yn agos at wasanaethau presennol ac integreiddio datblygiad i gymunedau presennol. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn targedu llawer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ynys Môn, gan gynnwys Caergybi, Llangefni ac Amlwch. Gallai darparu datblygiadau preswyl a chyflogaeth newydd yn y lleoliadau hyn o dan Opsiwn Gofodol A helpu i gefnogi eu hadfywiad. Gallai Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) gefnogi hyfywedd cyfleusterau addysg a chymunedol presennol yn y dyfodol drwy ddarparu tai newydd ac felly gynyddu poblogaeth yr aneddiadau allweddol. I’r gwrthwyneb, gallai hyn roi straen ychwanegol ar wasanaethau presennol. Gallai Opsiwn Gofodol A arwain at fwlch cynyddol mewn gwasanaethau a chyfleusterau rhwng aneddiadau mwy ac aneddiadau llai a mwy gwledig Ynys Môn, gan adael trigolion ardaloedd o'r fath yn fwy ynysig oddi wrth wasanaethau, cyfleusterau addysgol newydd a gweithgareddau cymunedol. Felly, ystyrir bod Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn debygol o gael effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg ar amcan 3 y GCI.

**5.14** O ganlyniad i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig), efallai y bydd pobl yn byw ymhellach o wasanaethau a chyfleusterau, ac oherwydd natur wasgaredig twf, gallai'r galw am addysg a gwasanaethau dyfu ar draws nifer ehangach o aneddiadau. Gall twf mewn trefi a phentrefi llai heb ysgolion a gwasanaethau penodol roi pwysau ar ysgolion mewn mannau eraill sydd angen darparu ar gyfer y

galw cynyddol, tra hefyd yn amsugno niferoedd cynyddol o'u dalgylch presennol. Yn ogystal, mae'n annhebygol y bydd faint o dwf ar draws yr aneddiadau llai yn ddigonol i wneud ysgolion newydd yn hyfyw. Fodd bynnag, fel Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol), bydd Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn dal i ddarparu cyfran o ddatblygiad mewn aneddiadau mwy a ddylai annog darparu cyfleusterau newydd. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith gadarnhaol bach a negyddol bach gymysg ar amcan 3 y GCI.

**5.15** Byddai Opsiwn C (ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn arwain at ddatblygiad ar hyd coridor yr A55, wedi'i ganolbwyntio o amgylch Caergybi, Llangefni, a Phorthaethwy yn ogystal â chanolfannau gwasanaeth lleol a phentrefi o fewn neu gerllaw'r canolfannau trafnidiaeth gyhoeddus. Er y gallai Opsiwn C (ffocws ar y coridor trafnidiaeth) annog darparu cyfleusterau cymunedol mewn lleoliadau hygyrch ar hyd y coridor, gallai hyn annog defnyddio ceir a methu â chefnogi trafnidiaeth lesol. Yn ogystal, efallai na fydd yn hyrwyddo mynediad teg ar draws Ynys Môn gan fod ochr ogleddol yr ynys y tu allan i'r ardal ffocws o dan yr opsiwn hwn ac, o'r herwydd, mae'n annhebygol y bydd cymunedau yn y gogledd yn profi manteision sylweddol mewn perthynas â chyfleusterau cymunedol ac addysgol. Felly, disgwylir i Opsiwn C (ffocws ar y coridor trafnidiaeth) gael effaith negyddol arwyddocaol gymysg ac effaith gadarnhaol fach ar amcan 3 y GCI.

## Amcan 4 y GCI: Annog ffyrdd o fyw iach a diogel sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol ar Ynys Môn

**5.16** Yng nghyfrifiad 2021, nododd 81.9% o boblogaeth Ynys Môn eu bod mewn iechyd da neu dda iawn, sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (79.1%). Yn ogystal, nododd cyfran is o bobl ar Ynys Môn eu bod mewn iechyd gwael neu wael iawn o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

5.17 Byddai Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio datblygiad mewn aneddiadau sylfaenol allweddol lle mae gwasanaethau gofal iechyd, chwaraeon a hamdden presennol wedi'u canolbwyntio'n bennaf. Er y gallai hyn gynyddu'r pwysau ar wasanaethau, gallai datblygiad fod ar raddfa ddigonol i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau newydd i ddiwallu anghenion gwahanol poblogaeth sy'n ehangu, gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd, chwaraeon a hamdden ychwanegol. Mae canolbwyntio twf yn yr aneddiadau allweddol sylfaenol yn creu cyfleoedd i integreiddio â chymunedau presennol, a'u gwasanaethu. Byddai datblygiadau preswyl newydd o fewn yr aneddiadau allweddol hefyd yn arwain at fwy o bobl yn byw'n agosach at gyfleoedd gwaith, gan gynyddu cyfleoedd i bobl gerdded a beicio i'r gwaith ac i weithgareddau dyddiol eraill, gan fod o fudd i iechyd. Fodd bynnag, gallai hyn ddod ar draul atal aneddiadau llai rhag elwa o fuddsoddiad mewn cyfleusterau, a fyddai'n Ffocws ar aneddiadau allweddol. Felly, disgwylir y bydd gan

Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg ar amcan 4 y GCI.

**5.18** Gall y patrwm twf gwasgaredig sy'n gysylltiedig ag Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) gynyddu'r pellteroedd rhwng pobl a gwasanaethau a chyfleusterau iechyd mawr. Gan fod aneddiadau llai yn cynnwys amwynderau cyfyngedig, byddai angen i bobl yrru i rywle arall er mwyn eu cyrchu, gan effeithio ar hygyrchedd a methu â chefnogi teithio llesol, sydd ag effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd. Fodd bynnag, gallai Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) annog dosbarthiad mwy cyfartal o gynlluniau a chyfleusterau newydd sy'n cefnogi iechyd, a byddai'n cefnogi hyfywedd cyfleusterau presennol mewn ardaloedd mwy gwledig. Yn ogystal, efallai y bydd mwy o botensial o fewn ac o amgylch aneddiadau llai i sefydlu cyfleusterau ar gyfer lles cymunedol sydd angen mwy o dir, fel rhandiroedd a gerddi cymunedol. Disgwylir i Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg mewn perthynas ag amcan 4 y GCI.

**5.19** Gallai Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) sy'n canolbwyntio datblygiad ar hyd coridorau trafnidiaeth, gefnogi dibyniaeth ar y car preifat, gan gynyddu allyriadau a chyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer teithio llesol gan arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd. Fodd bynnag, mae ffocws ar leoliadau hygyrch yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o allu cael mynediad at ofal iechyd sylfaenol, cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, gan nad yw Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn cynnwys unrhyw ardaloedd ffocws twf ar ochr ogleddol yr ynys, gall y cymunedau hynny ddioddef o golli buddsoddiad a gostyngiad mewn mynediad at gyfleusterau sy'n cefnogi iechyd da. At ei gilydd, mae'n debygol y bydd gan Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg ar amcan 4 y GCI.

## Amcan 5 y GCI: Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy

**5.20** Llwybr strategol allweddol Ynys Môn yw'r A55, sy'n darparu cysylltiad â Gogledd Cymru, yr M56 a rhwydwaith ffyrdd ehangach y DU. Mae Pont Britannia Ynys Môn yn cludo'r A55 a rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru ar draws Afon Menai, sy'n dioddef yn rheolaidd o gaeadau a chyfyngiadau oherwydd amodau'r tywydd. Mae ffyrdd allweddol eraill ar yr ynys yn cynnwys yr A5025 a'r A4080 sy'n cysylltu cymunedau gwledig ond sydd wedi'u cyfyngu. Mae rhwydwaith bysiau Ynys Môn yn gwasanaethu prif aneddiadau allweddol, gyda llwybrau'n ymestyn i gymunedau gwledig llai. Fodd bynnag, gall gwasanaethau pellennig fod yn anaml sy'n cyfyngu ar hygyrchedd i'r rhai heb ddefnydd o gar preifat. Datgelodd cyfrifiad 2021 fod 45% o weithlu'r ynys yn teithio i'r gwaith o fewn Ynys Môn, a bod 42% yn gweithio o gartref neu heb weithle sefydlog. Y tu hwnt i hyn, mae mewnlif ac all-lif nodedig o weithwyr rhwng Ynys Môn a Gogledd Cymru. Mae 61.3% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn Ynys Môn yn teithio i'r gwaith yn bennaf trwy yrru.

**5.21** Mae'n debygol y bydd Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy gan fod datblygiad yn cael ei gyfeirio tuag at leoliadau trefol hygyrch sy'n agos at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, gan leihau'r angen i deithio pellteroedd hirach a dibyniaeth ar siwrneiau ceir preifat. Gyda mwyafrif helaeth o'r boblogaeth wedi'i chanolbwyntio yn yr aneddiadau allweddol sylfaenol, mae gan Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) y potensial i gefnogi gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy sydd eisoes wedi'i ganoli yn yr aneddiadau mwy hynny. Serch hynny, gallai'r opsiwn hwn adael ardaloedd gwledig heb gefnogaeth i wella'r rhwydwaith bysiau sy'n ei chael hi'n anodd, gan ffafrio ardaloedd aneddiadau mwy. At ei gilydd, disgwylir effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 5 y GCI.

**5.22** Mae Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn gwasgaru datblygiad ar draws Ynys Môn ac felly gall leihau cyfleoedd ar gyfer gwelliannau seilwaith trafnidiaeth strategol ac mae'n annhebygol y bydd yn cefnogi cysylltedd trafnidiaeth gynaliadwy nac yn annog teithio llesol oherwydd y gofyniad cynyddol am siwrneiau o ganlyniad i bellteroedd teithio hirach rhwng cartrefi a swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Felly mae'n debygol y bydd Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig) yn cael effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 5 y GCI.

**5.23** Mae Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn cefnogi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030 sy'n canolbwyntio ar greu datblygiad dwysedd uchel, defnydd cymysg o amgylch canolfannau trafnidiaeth gyhoeddus. Felly, mae pobl yn debygol o fod yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus, a fyddai'n lleihau'r angen i deithio mewn car preifat. O dan yr opsiwn hwn, byddai datblygiad yn cael ei ganolbwyntio ar hyd coridor yr A55, lle mae llawer o safleoedd cyflogaeth hefyd wedi'u lleoli ac felly ni fyddai angen i bobl deithio'n bell i gyrraedd eu gweithle. Fodd bynnag, gall Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) annog mwy o ddibyniaeth ar siwrneiau ceir preifat gan eu bod yn dod i'r amlwg fel yr opsiwn mwyaf cyfleus, yn enwedig i leoliadau sydd y tu allan i'r coridorau trafnidiaeth ac felly'n methu â chefnogi opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy na lleihau siwrneiau. Serch hynny, gall twf o amgylch y canolfannau trafnidiaeth gynaliadwy a nodwyd leihau teithiau ceir preifat ac annog newid moddol i'r gwrthwyneb. Felly disgwylir effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 5 y GCI.

## Amcan 6 y GCI: Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig

**5.24** Mae gan Ynys Môn dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gyda thystiolaeth o weithgarwch dynol yn ymestyn dros tua 8,000 o flynyddoedd. Mae gan Ynys Môn dros 200 o henebion cofrestredig, ac mae ganddi sawl ardal gadwraeth gan

gynnwys Caergybi, Biwmares a Llangefni. Mae adeiladau rhestredig wedi'u dosbarthu ar draws yr ynys gyfan, er bod crynodiad cryf ar hyd arfordir de-ddwyrain yr ynys gerllaw'r tir mawr.

**5.25** Byddai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn cyfeirio datblygiad i'r prif aneddiadau allweddol, gan ddibynnu'n bennaf ar dir trefol tir llwyd i gyflawni datblygiad. Gallai hyn leihau'r risg o effeithiau ar asedau treftadaeth, gan fod yr ardaloedd hyn eisoes wedi'u hadeiladu'n eithaf da a gallai adfywio safleoedd tir llwyd yn briodol gael effeithiau cadarnhaol ar leoliadau asedau treftadaeth. Fodd bynnag, nodir bod llawer o asedau treftadaeth yn bresennol o fewn yr aneddiadau allweddol sylfaenol ac felly mae'n fwy tebygol y gallai datblygiad newydd gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol. Cydnabyddir hefyd fod yr effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig yn dibynnu'n fawr ar leoliad penodol y safle a dyluniad y datblygiad. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) gael effaith negyddol arwyddocaol a chadarnhaol fach gymysg, ond ansicr mewn perthynas ag amcan 6 y GCI.

**5.26** Byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn gwasgaru datblygiad ar draws nifer o aneddiadau yn Ynys Môn, lle mae asedau treftadaeth i'w cael fel arfer, gan arwain hefyd at fwy o bwysau i ddatblygu tir maes glas a allai effeithio ar dreftadaeth ddiwylliannol. Serch hynny, gallai gwasgaru datblygiad leihau'r siawns o effeithiau negyddol cronnus. Felly, disgwylir i Opsiwn Gofodol B gael effaith negyddol fach mewn perthynas ag amcan 6 y GCI.

**5.27** Mae Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio twf mewn nifer fach o aneddiadau o'i gymharu â'r ddau opsiwn arall ac felly bydd yr effeithiau ar asedau treftadaeth yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gan y byddai'r un faint o ddatblygiad yn cael ei gyflawni o dan yr opsiwn hwn â'r ddau opsiwn arall, mae'n debygol y bydd hefyd yn cael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol. Yn ogystal, gallai'r opsiwn hwn fod â risg uwch o effeithiau cronnus negyddol ar asedau treftadaeth a'r amgylchedd adeiledig. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol C gael effaith negyddol fach mewn perthynas ag amcan 6 y GCI.

## Amcan 7 y GCI: Hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg

**5.28** Adeg Cyfrifiad 2021, adroddwyd bod tua 17.8% o boblogaeth Cymru tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg, y gyfran isaf a gofnodwyd erioed mewn cyfrifiad. Y canrannau uchaf o bobl tair oed neu'n hŷn oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yng ngogledd-orllewin Cymru (Gwynedd ac Ynys Môn). Fel y cofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021, roedd 58.1% o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg ac roedd 11.1% yn gallu deall Cymraeg llafar. Nid oedd gan 30.7% o bobl unrhyw sgiliau yn y Gymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 (CSGA) Ynys Môn yn ceisio gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg a

mynediad ati, gan gynnwys ymhlith plant ysgol. Mae'n ceisio trosglwyddo sgiliau iaith Gymraeg o un cyfnod addysg i'r llall, a gwella cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg.

**5.29** Gallai datblygiad sy'n cael ei gyfeirio at gymunedau mwy gwledig gyda chyfradd uwch o siaradwyr Cymraeg, fel sy'n wir o dan Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig), gefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg o bosibl. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu i ryw raddau ar ddewis personol. Felly, disgwylir i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith gadarnhaol fach mewn perthynas ag amcan 7 y GCI gyda rhywfaint o ansicrwydd, tra disgwylir i Opsiynau Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) gael effeithiau dibwys.

## Amcan 8 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd

**5.30** Mae gan Ynys Môn Dirwedd Genedlaethol ddynodedig ar hyd ei harfordir sy'n 221km$^2$ ac yn gorchuddio traean o'r ynys. Mae yna hefyd dair rhan o arfordir agored heb eu datblygu wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth, sy'n ymestyn ar hyd 50km (31 milltir) o'r arfordir. Mae Ynys Môn yn dod o dan ddwy Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol (ACTG), ACTG01: Arfordir Ynys Môn ac ACTG02: Ynys Môn Fewnol. Mae gan yr ynys ddaeareg gymhleth ac mae'n cynnwys rhai o'r creigiau hynaf yng Nghymru a Phrydain.

**5.31** Byddai nifer o aneddiadau o fewn neu gerllaw Tirwedd Genedlaethol arfordirol Ynys Môn yn cael eu targedu ar gyfer twf o dan Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) gan gynnwys Amlwch, Biwmares a Rosneigr. Yn dibynnu ar leoliad, graddfa a nodweddion eraill y datblygiad arfaethedig, gallai naill ai beryglu cymeriad y Dirwedd Genedlaethol a nodweddion tirwedd eraill yn sylweddol, fel yr Ardal Tirwedd Arbennig gerllaw Amlwch, neu i'r gwrthwyneb helpu i adnewyddu rhai ardaloedd ar gyrion aneddiadau, gan arwain at welliannau cyffredinol i'r dirwedd. At ei gilydd, disgwylir effaith negyddol fach ar gyfer Opsiwn Gofodol A. Mae'r effaith yn ansicr, gan y bydd yr effaith wirioneddol yn dibynnu ar leoliad, dyluniad, graddfa a chynllun terfynol y datblygiad.

**5.32** Mae Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn targedu nifer o'r un aneddiadau arfordirol ag Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) fel y disgrifiwyd uchod. Mae hefyd yn dosbarthu twf ymhellach a allai arwain at effeithio ar ardaloedd tirwedd mwy sensitif nag o dan Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol). Byddai hyn hefyd yn cael mwy o effaith ar awyr dywyll oherwydd mwy o lygredd golau ar draws yr ynys. Er hynny, o ystyried natur wasgaredig y datblygiad, mae effeithiau cronnus ar anheddiad penodol yn llai tebygol. At ei gilydd, disgwylir effaith negyddol arwyddocaol ar gyfer Opsiwn Gofodol B mewn perthynas ag amcan 8 y GCI. Mae'r effaith yn ansicr, gan fod yr effaith wirioneddol yn dibynnu ar ddyluniad, graddfa a chynllun terfynol y datblygiad.

**5.33** Mae Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio twf ar hyd coridor trafnidiaeth yr A55, mewn nifer gyfyngedig o aneddiadau o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Serch hynny, mae nifer o'r meysydd ffocws canolig yn dal i gyd-fynd â'r Dirwedd Genedlaethol ac felly gallent gael effaith negyddol ar gymeriad y dirwedd leol yn dibynnu ar natur y datblygiad. Gallai Opsiwn C hefyd gynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau cronnus oherwydd y datblygiad mwy dwys ar draws llai o aneddiadau. Felly, yn gyffredinol, disgwylir i Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) gael effaith negyddol arwyddocaol mewn perthynas ag amcan 8 y GCI. Mae'r  effaith yn ansicr, gan fod yr effaith wirioneddol yn dibynnu ar ddyluniad, graddfa a chynllun terfynol y datblygiad.

## Amcan 9 y GCI: Diogelu a gwella bioamrywiaeth

**5.34** Mae gan Ynys Môn mae saith Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) daearol, pedair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), a safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn, yn ogystal â 60 nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae yna hefyd chwe Gwarchodfa Natur Leol (GNL), nifer o ardaloedd o Goetir Hynafol, pedair gwarchodfa RSPB ac un Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r tri opsiwn gofodol yn targedu nifer o'r un aneddiadau ar gyfer twf ac felly gallent effeithio ar rai safleoedd dynodedig gan gynnwys AGA cytrefi Môr-wenoliaid Gogledd Ynys Môn o amgylch Caergybi, AGA Môr-wenoliaid Môn a SoDdGA o amgylch Rhosneigr yn y de-orllewin, yr ardaloedd gwarchodedig morol, SoDdGA Glannau Porthaethwy o amgylch Porthaethwy, ac ardaloedd o Goetir Hynafol o amgylch Porthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll yn nwyrain yr ynys.

**5.35** Mae Opsiynau Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig) yn targedu twf ar draws sawl anheddiad sydd â safleoedd bioamrywiaeth dynodedig neu sydd gerllaw iddynt. Mae'r ddau opsiwn hyn yn cyfeirio rhywfaint o dwf tuag at Biwmares, er enghraifft, sy'n cynnwys nifer o ddynodiadau gan gynnwys SoDdGA, SoDdGA Morol a Choetir Hynafol. Er ei bod yn annhebygol y byddai datblygiad yn cael ei ganiatáu mewn safle bioamrywiaeth dynodedig, gallai datblygiad effeithio ar rwydweithiau cynefinoedd cynhaliol rhwng safleoedd. Mae hefyd yn debygol y byddai datblygiad o dan Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig) yn arwain at golli tir maes glas. Bydd yr effeithiau'n ansicr, gan y byddant yn dibynnu ar leoliad a dyluniad penodol y datblygiad newydd. Felly, disgwylir effeithiau negyddol arwyddocaol ond ansicr ar gyfer Opsiynau A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig).

5.36 Oherwydd ei ffocws ar safleoedd ar hyd coridor yr A55, mae'n debygol y bydd Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn effeithio ar lai o asedau nag Opsiynau A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig) ac yn osgoi effeithio ar safleoedd dynodedig ar yr ochr ogleddol yr ynys, oherwydd crynodiad gofodol twf ar yr ochr ddeheuol. Er y byddai'r opsiwn hwn yn osgoi llawer o asedau bioamrywiaeth dynodedig a heb eu dynodi, gallai o hyd arwain at ddatblygiad ger

safleoedd bioamrywiaeth. Oherwydd bod effaith datblygiad yn ddibynnol iawn ar ei leoliad penodol, bydd yr effaith yn ansicr. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) gael effaith negyddol fach ond ansicr mewn perthynas ag amcan 9 y GCI.

## Amcan 10 y GCI: Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr Ynys Môn

**5.37** Mae Ynys Môn o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Nid oes unrhyw Barthau Diogelu Ffynhonnell yn Ynys Môn. Mae Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Ynys Môn (2015) yn sefydlu sut y dylid rheoli adnoddau dŵr yn nalgylchoedd afonydd yr ynys. Mae'r strategaeth yn nodi ble mae dŵr yn debygol o fod ar gael i'w dynnu ym mhrif ddalgylchoedd afonydd Ynys Môn, gan nodi argaeledd dŵr yn nalgylchoedd Braint, Crigyll a Than yr Allt a dim dŵr ar gael yn nalgylchoedd Alaw a Chefni. Mae dŵr gwastraff ar Ynys Môn yn cael ei drin gan 29 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, sy'n eiddo i Dŵr Cymru ac yn cael eu gweithredu ganddo.

**5.38** Byddai'r tri opsiwn gofodol yn cyflwyno twf o amgylch aneddiadau o fewn dalgylchoedd afonydd a allai felly effeithio ar ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb. Yn ogystal, mae gan ddatblygiad o dan bob opsiwn gofodol y potensial i arwain at broblemau draenio a bydd yn cynyddu'r galw ar seilwaith carthffosiaeth.

**5.39** Mae'r tri opsiwn gofodol yn cynnig datblygiad ffocws canolig yn Llangefni, o fewn dalgylch Cefni lle nad oes dŵr ar gael. Nid oes dŵr ar gael yn nalgylch Alaw chwaith, a allai effeithio ar Opsiynau A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig) oherwydd y twf arfaethedig mewn aneddiadau ar ochr ogleddol yr ynys. Er y byddai Opsiynau A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a B (Datblygiad gwasgaredig) yn arwain at ddatblygiad mwy gwasgaredig, gan ychwanegu pwysau o bosibl at ystod ehangach o adnoddau dŵr, mae Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn debygol o roi mwy o bwysau ar ddetholiad mwy cyfyngedig o adnoddau dŵr o fewn cyrraedd y coridor twf trwy ganolbwyntio datblygiad yn ofodol. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch effaith pob opsiwn gofodol ar adnoddau dŵr Ynys Môn, ystyrir bod gan bob opsiwn gofodol effeithiau negyddol arwyddocaol ar amcan 10 y GCI, gyda rhywfaint o ansicrwydd.

## Amcan 11 y GCI: Diogelu a gwella ansawdd aer

**5.40** Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddatgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ansawdd aer os yw'n debygol y bydd amcanion ansawdd aer statudol yn cael eu rhagori. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ARhAA ar Ynys Môn.

**5.41** Byddai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio datblygiad yn yr aneddiadau allweddol sylfaenol, gan ganolbwyntio ar safleoedd tir llwyd ac adfywio canolfannau trefol. Bydd ffocws ar fewnlenwi a datblygiadau tir llwyd eraill yn cefnogi ffurf drefol fwy dwys. Gan fod tai newydd yn cael eu lleoli'n agosach at gyflogaeth ac amwynderau, mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn yn cefnogi defnydd trafnidiaeth gynaliadwy ac yn annog teithio llesol. Er y gallai twf ar gyrion aneddiadau presennol gynyddu nifer y teithiau i mewn ac allan o ganol y dref, mae'n debygol y bydd opsiynau trafnidiaeth presennol, fel llwybrau bysiau, i gefnogi'r teithiau hyn, yn enwedig o'i gymharu ag opsiynau gofodol eraill mewn ardaloedd mwy gwledig. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) gael effaith gadarnhaol arwyddocaol yn erbyn yr amcan hwn.

**5.42** Byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn arwain at nifer fwy o aneddiadau o wahanol feintiau yn cynyddu o ran maint, yn gymesur â'u poblogaeth bresennol. Felly byddai mwy o ddatblygiad yn digwydd mewn aneddiadau llai, mwy gwledig gyda chyflogaeth a chyfleusterau cyfyngedig, gan arwain at gynnydd mewn teithiau ceir preifat i aneddiadau mwy a chyfle cyfyngedig ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar ansawdd aer. Felly, disgwylir effaith negyddol arwyddocaol ar gyfer Opsiwn B (Datblygiad gwasgaredig).

**5.43** Byddai Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio datblygiad ar hyd coridor yr A55, gan wasgaru cyfleusterau a gwasanaethau nad ydynt yn agos at dai. Gallai’r ffocws ar gysylltedd ffyrdd annog defnyddio ceir preifat ar hyd y coridor a dadgymell pobl rhag dewis opsiynau teithio mwy cynaliadwy, a fyddai’n cynyddu llygredd ar hyd y coridor allweddol hwn. Fodd bynnag, gallai canolbwyntio twf mewn aneddiadau presennol ar y coridorau hyn, gyda hygyrchedd gwell at opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, leihau'r angen i deithio mewn car gydag effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer. Mae effaith gadarnhaol arwyddocaol ac effaith negyddol arwyddocaol gymysg yn debygol yn erbyn yr amcan hwn ar gyfer Opsiwn C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth).

## Amcan 12 y GCI: Hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau

**5.44** Mae system Dosbarthu Tir Amaethyddol (DTA) yn darparu fframwaith ar gyfer dosbarthu tir yn ôl y graddau y mae ei nodweddion ffisegol neu gemegol yn gosod cyfyngiadau hirdymor ar ddefnydd amaethyddol. Mae polisi cynllunio yn diffinio graddau 1 i 3a fel y tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas'. Er nad oes gan Ynys Môn unrhyw dir Gradd 1, mae cyfran sylweddol o'r ynys yn cynnwys tir Gradd 2 a Gradd 3a.

**5.45** Mae Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn blaenoriaethu datblygiad ar dir trefol tir llwyd sy'n lleihau faint o dir sydd ei angen i ddiwallu anghenion twf ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer adferiad. Mae'r ffocws ar dir llwyd hefyd yn cyfyngu ar ddefnyddio tir maes glas ar gyfer datblygu. Disgwylir i Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) gael effaith gadarnhaol arwyddocaol ar amcan 12 y GCI.

**5.46** Byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn rhoi mwy o ffocws i gymunedau gwledig nag Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) a byddai'n gwasgaru mwy o'r twf newydd ymhlith aneddiadau, pentrefi, pentrefi gwledig a chlystyrau. O ganlyniad i'r amrywiaeth eang o safleoedd datblygu posibl, byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn cyfyngu ar y defnydd o safleoedd tir llwyd trefol ac yn debygol o arwain at bwysau i ddatblygu tir maes glas gan gynnwys tir amaethyddol amlbwrpas o ansawdd da. Felly, disgwylir i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith negyddol arwyddocaol ar amcan 12 y GCI.

**5.47** Byddai Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn cefnogi creu datblygiad dwysedd uchel, defnydd cymysg o amgylch canolfannau trafnidiaeth, a allai arwain at ddefnydd mwy effeithlon o dir. Serch hynny, rhagwelir y byddai llawer o ddatblygiad ar dir maes glas. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol C (ffocws ar y coridor trafnidiaeth) gael effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg ar amcan 12 y GCI.

## Amcan 13 y GCI: Parhau i leihau cynhyrchu gwastraff a hyrwyddo rheoli gwastraff mwy cynaliadwy

**5.48** Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn ddwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref a 13 banc ailgylchu (Canolfannau SORT). Yn 2023/24, cafodd 64.7% o'r holl wastraff ar Ynys Môn ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Yn ogystal, mae dau

safle tirlenwi ar Ynys Môn (Chwarel Rhuddlan Bach a Chwarel Nant Newydd). Nid oes unrhyw safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus ar yr ynys.

**5.49** Oherwydd natur lefel uchel y tri opsiwn gofodol, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhyngddynt o ran rheoli gwastraff cynaliadwy. Mae'n annhebygol y bydd dosbarthiad gofodol datblygiad yn effeithio ar y defnydd o ddeunyddiau neu adnoddau, faint o wastraff a gynhyrchir (gan gynnwys gwastraff peryglus), na chyfran y gwastraff adeiladu a dymchwel a anfonir i safleoedd tirlenwi. Yn yr un modd, ni ddisgwylir i leoliad y datblygiad ddylanwadu ar adfer, ailddefnyddio nag ailgylchu deunyddiau gwastraff, nac ar y galw am gynnwys wedi'i ailgylchu. O ganlyniad, mae amcan 13 y GCI wedi'i eithrio o'r gwerthusiad o opsiynau gofodol.

## Amcan 14 y GCI: Darparu ar gyfer economi gynaliadwy

**5.50** Mae Ynys Môn yn denu 1.71 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol, gan gynhyrchu £304 miliwn y flwyddyn. Felly mae twristiaeth a hamdden yn hanfodol i economi'r ynys, gyda'r sector twristiaeth yn cyflogi tua 20% o boblogaeth yr ynys. Mae sector twristiaeth Ynys Môn yn tyfu, gan weld cynnydd o 64% mewn refeniw rhwng 2006 a 2017. Er bod Ynys Môn yn denu twristiaid o Ogledd-orllewin Lloegr yn bennaf, mae Caergybi hefyd wedi dod yn gyrchfan i longau mordeithio, gydag ymwelwyr â'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol at economi'r ynys.

**5.51** Mae Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn ceisio canolbwyntio cartrefi a swyddi newydd yn yr aneddiadau allweddol sylfaenol, gan ddod â phobl a chyfleoedd cyflogaeth newydd i'r ardaloedd hyn a chefnogi eu hadfywiad. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at fwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y trefi hyn gyda chynnydd cysylltiedig yn nifer yr ymwelwyr, gan wella canol trefi a hefyd ysgogi galw am wasanaethau newydd. Gallai Opsiwn A hefyd helpu i ddatblygu'r cynnig twristiaeth mewn aneddiadau allweddol i ymwelwyr, gan gefnogi twristiaeth gynaliadwy drwy leddfu'r pwysau ar aneddiadau llai nad oes ganddynt efallai'r seilwaith na'r gwasanaethau i ymdopi â nifer cynyddol yr ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, mae'n annhebygol y bydd Opsiwn A yn cefnogi economïau gwledig oherwydd ei ffocws ar aneddiadau allweddol. At ei gilydd, mae effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn debygol yn erbyn amcan 14 y GCI.

5.52 Byddai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn helpu i ddosbarthu twf economaidd yn fwy cyfartal ar draws yr ynys, a allai helpu i gryfhau bywiogrwydd nifer fwy o aneddiadau. Fodd bynnag, oherwydd y patrwm gwasgaredig, mae'n debyg mai dim ond ar raddfa fach fyddai datblygiad mewn trefi ac aneddiadau llai ac felly ni fyddai'n ddigonol i adfywio canol trefi llai. Serch hynny, gallai cynnydd yn y boblogaeth ar draws yr aneddiadau amrywiol gynyddu nifer yr ymwelwyr hyd yn oed yng nghanol trefi llai ac o bosibl gynyddu'r galw am wasanaethau, gan sbarduno twf.

Fodd bynnag, gall gwasgariad datblygiad atal gwelliant sylweddol unrhyw anheddiad penodol, yn enwedig fel canolfannau i gefnogi'r sector twristiaeth. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg yn erbyn amcan 14 y GCI.

**5.53** Byddai Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio twf ac adfywio aneddiadau ar hyd coridor yr A55 ar ochr ddeheuol yr ynys, a fyddai'n cefnogi hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi ar draws nifer fach o aneddiadau. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn yn cefnogi dosbarthu twf i aneddiadau llai a mwy gwledig, ac adfywio'r rhain, ac felly gall gyfyngu ar ochr ogleddol yr ynys rhag unrhyw fuddion mawr sy'n gysylltiedig â thwf. Felly, disgwylir i Opsiwn C gael effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg ar yr amcan hwn.

## Amcan 15 y GCI: Darparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd swyddi

**5.54** Y prif sector cyflogaeth i drigolion Ynys Môn yn 2019 oedd 'Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd', ac yna 'Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd' ac yna 'cynhyrchu'. Roedd yr enillion wythnosol gros cyfartalog ar Ynys Môn yn 2024 yn £704.90, yn uwch na chyfartaledd Cymru (£674.50). Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024, roedd 17.7% o drigolion Ynys Môn wedi'u dosbarthu fel rhai anactif yn economaidd.

**5.55** Mae Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn canolbwyntio ar bedwar anheddiad allweddol, Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy, lle mae cyfran sylweddol o'r safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u lleoli. Byddai'r opsiwn gofodol hwn yn darparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch, gan atgyfnerthu aneddiadau allweddol fel canolfannau cyflogaeth, a chefnogi economïau lleol yr ardaloedd hyn sy'n debygol o annog twf economaidd ledled yr ynys. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn hwn yn targedu twf economïau gwledig a swyddi cysylltiedig y tu allan i'r aneddiadau allweddol yn benodol. At ei gilydd, mae effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg ar amcan 15 y GCI yn debygol.

**5.56** Gallai Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) gefnogi dosbarthiad ehangach o gyfleoedd cyflogaeth ar draws ardaloedd gwledig, gan gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi wledig a chefnogi o bosibl amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, mae faint o ddatblygiad a gynigir ym mhob anheddiad yn gymharol fach o'i gymharu â'r opsiynau gofodol eraill, a allai olygu hyd yn oed yn yr aneddiadau mwy, bod llai o debygolrwydd o ddarparu llawer o gyfleoedd swyddi newydd, a allai gael effeithiau andwyol ar yr economi. At ei gilydd, disgwylir i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) gael effaith gadarnhaol fach a negyddol fach gymysg ar amcan 15 y GCI.

**5.57** Mae Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn canolbwyntio twf ar hyd coridor yr A55, lle mae llawer o safleoedd cyflogaeth presennol yr ynys wedi'u lleoli neu y maent gerllaw iddo. Felly, mae'n debygol y byddai gan bobl fynediad da i'w gweithleoedd. Gallai'r opsiwn hwn hefyd gefnogi gallu pobl i deithio ymhellach i'r gwaith, o bosibl y tu hwnt i ardal y cynllun, drwy leoli tai ar hyd coridor yr A55 gan hwyluso mynediad cyfleus i dir mawr Cymru a allai leihau'r cyfraniad uniongyrchol at economi'r ynys leol ychydig. Gallai Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) waethygu'r ardal ffocws ymhellach fel canolfan gweithgarwch economaidd a chyflogaeth, a fyddai, i'r gwrthwyneb, yn methu â chefnogi dosbarthiad cyfleoedd cyflogaeth mewn mannau eraill ar draws yr ynys, yn enwedig ar gyfer economïau gwledig. Felly, mae effaith gadarnhaol arwyddocaol a negyddol fach gymysg yn debygol yn erbyn yr amcan hwn.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

**5.58** Mae'n debygol y bydd gan Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) y nifer uchaf o effeithiau cadarnhaol arwyddocaol yn erbyn amcanion y GCI, er mewn sawl achos mae'r rhain yn rhan o effeithiau cymysg yn gyffredinol. Byddai Opsiwn A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) yn cyfeirio datblygiadau newydd tuag at aneddiadau allweddol sydd â chyfleoedd cyflogaeth, amwynderau a gwasanaethau presennol, gan integreiddio datblygiadau i gymunedau presennol. Drwy leoli tai newydd yn agos at gyflogaeth ac amwynderau, disgwylir i Opsiwn Gofodol A annog defnyddio opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gweithredol, gan gefnogi iechyd gwell. Bydd hefyd yn hyrwyddo defnyddio tir llwyd, gan leihau'r galw am dir maes glas i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd. Fodd bynnag, gallai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) ddosbarthu twf a'i fanteision cysylltiedig yn anghyfartal, gan fethu â diwallu anghenion tai aneddiadau llai a mwy gwledig Ynys Môn, a gadael eu trigolion yn fwyfwy ynysig rhag mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.

**5.59** O'r tri opsiwn gofodol, disgwylir i Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) arwain at y nifer uchaf o effeithiau negyddol arwyddocaol yn erbyn amcanion y GCI. Drwy wasgaru datblygiad ar draws y nifer fwyaf o aneddiadau o'r tri opsiwn, mae'n debygol y bydd Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) yn arwain at fwy o boblogaeth Ynys Môn yn byw ymhellach i ffwrdd o'r cyfleoedd cyflogaeth a'r amwynderau sydd wedi'u lleoli mewn aneddiadau allweddol sylfaenol mwy. Heb fynediad da at opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy na chyfleoedd ar gyfer teithio llesol, mae'n debygol y bydd gan yr opsiwn hwn ganlyniadau negyddol ar iechyd ac ansawdd aer hefyd. Serch hynny, gall Opsiwn Gofodol B (Datblygiad gwasgaredig) helpu i gefnogi economïau aneddiadau llai a mwy gwledig ar yr ynys.

5.60 Mae Opsiwn Gofodol C (Ffocws ar y coridor trafnidiaeth) yn arwain at set gymysg iawn o ganlyniadau tebygol yn erbyn amcanion y GCI. Drwy ganolbwyntio datblygiad ar hyd coridor trafnidiaeth allweddol, gellir disgwyl twf ar draws ychydig o

aneddiadau hygyrch sydd â chysylltedd da. Er y gallai'r opsiwn gofodol hwn annog defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, a gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac amwynderau, mae ganddo hefyd y potensial i atgyfnerthu dibyniaeth ar y car preifat, ac fel o dan Opsiwn Gofodol A, gall gyfyngu manteision twf i nifer benodol o aneddiadau, gyda chymunedau yn y gogledd yn annhebygol o weld manteision sylweddol.

**5.61** Er y disgwylir i'r tri opsiwn gofodol arwain at ystod eang o effeithiau cymysg yn erbyn amcanion y GCI, yn gyffredinol, ystyrir mai Opsiwn Gofodol A (Ffocws ar aneddiadau allweddol) sy'n perfformio'n fwyaf cadarnhaol.

# Pennod 6
## Y camau nesaf

**6.1** Unwaith y bydd yr ymgynghoriad ar y ddogfen 'Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau' a'r Adroddiad GCI Cychwynnol hwn sy'n cyd-fynd â'r ddogfen wedi'i gwblhau, bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried yn yr iteriad nesaf o'r CDLl a'r GCI.

**6.2** Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cyhoeddi'r ddogfen 'Strategaeth a Ffefrir' a'r Adroddiad GCI sy'n cyd-fynd â hi yn ddiweddarach eleni.

LUC
Chwefror 2026

# Cyfeiriadau

1 Llywodraeth Cymru (2020). Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3). (gweler www.gov.wales/development-plans-manual-edition-3-march-2020)

# Cynhyrchwyd yr adroddiad gan LUC

**Bryste**
12th Floor, Beacon Tower, Colston Street, Bristol BS1 4XE
0117 389 0700

**Caerdydd**
Ystafell 1.12, Llawr 1af, Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24
0EB 0292 254 0920

**Caeredin**
Atholl Exchange, 6 Canning Street, Edinburgh EH3 8EG
0131 326 0900

**Glasgow**
5th Floor, The Garment Factory, 10 Montrose Street, Glasgow G1 1RE
0141 403 0900

**Llundain**
250 Waterloo Road, London SE1 8RD
020 7199 5801

**Manceinion**
4th Floor, 57 Hilton Street, Manchester M1 2EJ
0161 802 2800

**Sheffield**
32 Eyre Street, Sheffield, S1 4QZ
0114 392 2366

**Cyfeiriad e-bost** ar gyfer ymholiadau cyffredinol: hello@landuse.co.uk

**landuse.co.uk**

Dylunio Tirwedd / Cynllunio Strategol ac Asesu / Cynllunio Trafnidiaeth
Cynllunio Datblygu / Dylunio Trefol a Chynlluniau Meistr / Asesiad Effaith
Amgylcheddol Coedyddiaeth / Cynllunio ac Asesu Tirwedd Rheoli Tirwedd / Ecoleg
/ Amgylchedd Hanesyddol / GIS a Delweddu